Diweddariad Hunan-Asesiad Perfformiad: Ebrill i Mehefin 2022

Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno perfformiad y cyngor yn erbyn ei amcanion a meysydd llywodraethu rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022, yn cynnwys ein defnydd o egwyddor Datblygu Cynaliadwy, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

Cynnwys

Crynodeb o'r sefyllfa 4

Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion 6

Llesiant a Chydraddoldeb 9

Clymu Cymunedau: Mae Cymunedau wedi eu cysylltu, ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da 11

Llesiant a Chydraddoldeb 13

Cymunedau Cryf: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid 17

Llesiant a Chydraddoldeb 22

Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i diogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd 28

Llesiant a Chydraddoldeb 32

Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny 38

Llesiant a Chydraddoldeb 43

Iechyd Corfforaethol: Mae'r Cyngor yn effeithlon, wedi'i reoli'n dda ac yn amgylcheddol gynaliadwy 47

Camau Gwella 69

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 70

Manylion cyswllt a mwy o wybodaeth

Am mwy o wybodaeth, neu i roi gwybod i ni beth yw eich barn am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni:

Drwy ebot: timcynlluniostrategol@sirddinbych.gov.uk

Dros y ffôn: 01824 706291

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

Drwy'r post:

Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad,
Cyngor Sir Ddinbych,
Blwch Post 62,
Rhuthun,
LL15 9AZ

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a geir yn y Gymraeg.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Dilynwch ni ar Twitter

Ewch i wefan y Cyngor i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i Borth Llais y Sir a chofrestrwch ar gyfer *Y Panel!*

Tanysgrifiwch i Newyddlen Llais y Sir

Crynodeb o’r sefyllfa

Arfarnwyd y llinyn mesur ar gyfer pob blaenoriaeth yn unol â’r fframwaith rheoli perfformiad yr ydym wedi’i sefydlu. Arfarnwyd y prosiectau ar sail eu statws.

Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy’n diwallu eu hanghenion

Llinynnau mesur: Da
Prosiectau: Da

Clymu Cymunedau: Mae Cymunedau wedi eu cysylltu, ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Prosiectau: Da

Cymunedau Cryf: Mae’r cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid

Llinynnau mesur: Derbyniol
Prosiectau: Rhagorol

Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi’i ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd

Llinynnau mesur: Da
Prosiectau: Rhagorol

Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Prosiectau: Da

Iechyd Corfforaethol: Mae’r cyngor yn effeithlon, wedi’i reoli’n dda ac yn amgylcheddol gynaliadwy

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Prosiectau: Da

Nodyn ynglŷn â Mesur Perfformiad

Yn Sir Ddinbych, ein dull arferol o bennu trothwyon perfformiad yw cymryd y chwartel uchaf (y perfformwyr gorau) o'r wybodaeth gymharol yn genedlaethol a gosod hwnnw fel y trothwy lle caiff perfformiad ei ystyried yn 'Rhagorol'. Y canolrif yw'r trothwy 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' fel arfer. Y man yn y canol rhwng y gwerthoedd hynny yw'r trothwy rhwng perfformiad 'Derbyniol' a 'Da'.

Os nad oes data ar gael i ni allu cymharu ein hunain ag eraill (naill ai'n genedlaethol neu â grwpiau cymharol) yna byddwn yn cymryd safbwynt lleol ar yr hyn yr ystyriwn sy'n berfformiad 'Ardderchog', ac yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Dylai hyn adlewyrchu ein huchelgeisiau.

I gael gwybod mwy am sut rydym yn rheoli perfformiad, ewch i weld y Canllaw i Reoli Perfformiad ar ein gwefan.

Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion

Llinynnau mesur: Da

Prosiectau: Da

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Ar ddiwedd mis Mehefin 2022 roedd yna 2,075 o bobl ar restr aros Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH), sy'n ostyngiad o'r cyfnod diwethaf, Hydref - Rhagfyr (2,378). Mae ein hail linyn mesur SARTH yn ystyried nifer y bobl a gaiff eu cartrefu o'r gofrestr naill ai i stoc y cyngor neu eiddo Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Sir Ddinbych. Ar ddiwedd Mehefin 2022, roedd cyfanswm o 61 o bobl wedi derbyn tai, sy'n debyg i'r nifer a oedd wedi derbyn tai yn yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol (67).

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Prosiect

Yn profi rhwystrau: Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun

Derbyniwyd y cyllid cyntaf o raglen Grant Tai Cymdeithasol. Mae'r contract adeiladu wedi'i lofnodi a'i gwblhau gyda Reed Construction. Mae cyfarfodydd y tîm dylunio yn parhau. Roedd Grŵp Cynefin yn rhagweld y byddai'r gwaith dymchwel yn dechrau'n llawn o gwmpas mis Mehefin 2022; ond mae hyn wedi'i ohirio ychydig a bydd gwaith gosod y safle yn dechrau ym mis Awst.

O ran ymgysylltu â thenantiaid, cynhaliwyd cyfarfod ym mis Mai gyda phreswylwyr i'w hysbysu ynglŷn â'r cynnydd. Rhagwelir mai'r dyddiad cwblhau presennol fydd mis Chwefror 2024; ond, bydd hyn yn cael ei adolygu yn sgil yr oedi a fu gyda'r gwasanaethau ers mis Ebrill, a disgwylir i hyn barhau tan fis Awst 2022. Mae Grŵp Cynefin a'r cyngor yn parhau i gyfarfod bob pythefnos i drafod cynnydd ac unrhyw faterion a allai godi.

Ar y trywydd iawn: Tai Cyngor Ychwanegol

Ers yr adroddiad diwethaf, mae hyder yn y ddarpariaeth wedi gwella oherwydd fe wnaed cynnydd yn y meysydd canlynol:

- Mae gwaith wedi dechrau i adnewyddu'r teras o wyth eiddo yn Aquarium Street, y Rhyl, a fydd yn darparu cartrefi i deuluoedd.
- Cytunwyd ar ddyddiad dechrau ar gyfer y gwaith i drawsnewid yr hen swyddfa dreth, sy'n cael ei alw'n Llys Anwyl yn Ffordd Churton, y Rhyl, yn 12 o fflatiau i hen bobl ar gyfer rhent cymdeithasol.
- Mae'r broses o brynu hen fflat y cyngor yn y Rhyl wedi cael ei chwblhau.

Mae hyder y gellir cyflawni'r rhaglen yn llwyddiannus er gwaetha'r pandemig, ond ni fydd modd cadw at y terfynau amser oherwydd bod y datblygiadau yn cymryd mwy o amser na'r hyn a ragwelwyd. Mae hyn yn deillio o gyfyngiadau ar gyflenwadau llafur a deunyddiau yn y sector adeiladu.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Data 2020 i 2022

Llinyn Mesur	**2020 - 2021**	**2021 - 2022**	**Statws**
Nifer y bobl oedd ar y Gofrestr Angen Tai Arbenigol Anableddau Cymhleth y sicrhawyd tai â chymorth ar eu cyfer - **wedi'i feincnodi'n lleol**	5	13	Rhagorol
Y cyflenwad ychwanegol o dai cyngor a ddarparwyd	14	13	Amherthnasol Cyfrif yn unig
Nifer y cartrefi ychwanegol a ddarparwyd yn Sir Ddinbych – **wedi'i feincnodi'n lleol**	435	422	Rhagorol
Nifer yr eiddo gwag sy'n cael eu defnyddio eto (hen ddiffiniad) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	184	196	Rhagorol
Nifer y cartrefi sector preifat sydd wedi gwella o ran safon ac ansawdd o ganlyniad i ymyrraeth gan y Cyngor – **wedi'i feincnodi'n lleol**	415	325	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llinyn Mesur	2020 - 2021	2021 - 2022	Statws
Y cyflenwad ychwanegol o dai fforddiadwy, gan gynnwys tai cymdeithasol, a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn – **wedi'i feincnodi'n lleol**	154	222	Rhagorol
Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref (dyletswydd Adran 66) – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol**	52	42	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran yr aelwydydd digartref y sicrhawyd cartrefi iddynt (dyletswydd Adran 73) – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol**	31	22	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Nifer y Cartrefi Gofal Ychwanegol a gaiff eu cefnogi gan y cyngor	0	74	Amherthnasol Cyfrif yn unig

Arolwg Rhanddeiliaid 2018 i 2022

Llinyn Mesur	2018 - 2019	2021 - 2022	Statws
Y canran o drigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fodlon gydag argaeledd tai yn eu hardaloedd hwy – **wedi'i feincnodi'n lleol**	42	30	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Y canran o drigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fodlon â safon tai yn eu hardaloedd hwy – **wedi'i feincnodi'n lleol**	52	40	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

Llinyn Mesur	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Chwarter 1 2022 - 2023	Statws
Nifer y bobl ar restr aros SARTH– **wedi'i feincnodi'n lleol**	2,297	2,283	2,378	2,050	2,075	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Nifer cronnus y bobl a gartrefwyd oddi ar gofrestr SARTH	67	153	209	261	61	Amherthnas. Cyfrif yn unig

Llesiant a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu at Nodau Llesiant Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **ffyniant**, **cadernid amgylcheddol, iechyd, cydraddoldeb, cymunedau cydlynus,** a Chymru **sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** gyda **diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.** Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Newyddlen i Denantiaid Tai Sir Ddinbych

Rhannwyd rhifyn yr haf y newyddlen i denantiaid ym mis Mehefin. Mae'r newyddlen yn hysbysu'r tenantiaid ynglŷn ag amrywiaeth o newyddion a materion fel newidiadau i Ddeddf Rhentu Tai (Cymru) 2016, Gwobrau Tenantiaid Tai Sir Ddinbych, Tai Newydd, Y wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Gwella Tai, a'r wybodaeth ddiweddaraf am Ddatblygu Cymunedol. Mae'r newyddlen hefyd yn darparu manylion cyswllt defnyddiol i denantiaid, ac fe'u hanogir i ymateb gydag unrhyw eitemau penodol yr hoffent eu gweld yn y rhifyn nesaf.

Mae'r dull cyfathrebu hwn yn sicrhau bod tenantiaid yn parhau i **gyfranogi**, a gobeithio y bydd yn meithrin perthynas **hirdymor** dda gyda'r Cyngor.Mae hefyd yn ceisio **atal** unrhyw

broblemau drwy sicrhau fod pobl yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf o ran newidiadau sydd i ddod a newyddion pwysig. Bydd y rheiny dan **anfantais economaidd-gymdeithasol** yn elwa o hyn.

Clymu Cymunedau: Mae Cymunedau wedi eu cysylltu, ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Prosiectau: Da

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Mae cysylltiad band eang cyflym iawn yn Sir Ddinbych yn awr yn 94.11%; cynnydd bach iawn o 0.21% ers mis Ebrill. Roedd gan 3.85% o eiddo fand eang o 10mbps neu is. Mae hyn yn ostyngiad o 0.10% ers mis Ebrill 2022. Mae cysylltiad band eang cyflym iawn Sir Ddinbych yn parhau i fod yn wael iawn o'i gymharu â gweddill y DU.

Gwnaed 50% o drafodion cyhoeddus ar y we rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022, o'i gymharu â chyfanswm nifer y trafodion a wnaed gan ddefnyddio pob sianel fynediad. Mae hyn yn ostyngiad o 3% yn ffigwr mis Ionawr i fis Mawrth.

Yn anffodus, oherwydd materion capasiti nid yw'n bosibl darparu data yn yr adroddiad hwn ar gyfer canran y ffyrdd a phalmentydd oedd wedi'u difrodi a wnaed yn ddiogel o fewn y targed. Mae'r Gwasanaeth yn mynd i'r afael â'r mater, a byddwn yn ceisio cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein hadroddiad nesaf.

Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

Brîff Prosiect: Teithio i'r Gwaith, Addysg a Gwasanaethau

Yr unig brosiect sydd ar ôl o dan y flaenoriaeth hon, a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2017 i 2022 yw ein Cynllun Teithio Cynaliadwy drafft (sy'n cynnwys Teithio Llesol). Mae drafft y ddogfen wedi'i ddatblygu, a bydd ymgysylltiad cyhoeddus y Cynllun yn dechrau'n fuan.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Data 2020 i 2022

Llinyn Mesur	**2020 - 2021**	**2021 - 2022**	**Statws**
Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol**	3.5	2.6	Rhagorol
Canran y ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd/ ffyrdd dosbarth B sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol**	5	3.8	Rhagorol
Canran y ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd/ ffyrdd dosbarth C sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol**	7.6	7.5	Rhagorol
Canran yr oedolion (16 neu'n hŷn) sydd wedi defnyddio'r rhyngrwyd yn y tri mis diwethaf (Conwy a Sir Ddinbych) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	89.8	Aros am ddata	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Y ganran o signal symudol 4G ar ffordd (holl weithredwyr) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	49.8	50.63	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 i 2019

Llinyn Mesur	**2014**	**2019**	**Statws**
Canran Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Mynediad i Wasanaethau (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru).	14	14	Amherthnasol Cyfrif yn unig

Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

Llinyn Mesur	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Chwarter 1 2022 - 2023	Statws
Canran o ardaloedd all dderbyn Cysylltiad Cyflym Iawn yn Sir Ddinbych (>30 Mbps) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	92.63	92.75	93.37	93.92	94.11	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran o eiddo gyda Band Eang o 10 Mbps neu lai - **wedi'i feincnodi'n lleol**	4.34	4.33	4.18	3.95	3.85	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y trafodion a wneir ar y we, o'i gymharu â nifer llawn y trafodion a wneir gan ddefnyddio pob sianel fynediad - **wedi'i feincnodi'n lleol**	56	48	51	53	50	Derbyniol
Canran y ffyrdd a phalmentydd a ddifrodwyd a wnaed yn ddiogel o fewn y cyfnod targed (CAT1 – Diffygion Categori 1 yr ymdriniwyd â nhw o fewn yr amserlen) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	67	64	51	43	Aros am ddata	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llesiant a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n cefnogi Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **ffyniant, cadernid amgylcheddol, cydraddoldeb,**

cydlyniant, cyfrifoldeb byd-eang a **diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.** Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Cymunedau Gwledig Sir Ddinbych yn derbyn hwb cyflymder rhyngrwyd

Gyda chymorth swyddog digidol y Cyngor, mae Partneriaeth Gymunedol Ffibr Groesffordd Marli, sy'n cynnwys 37 eiddo (gan gynnwys 13 o fusnesau), wedi derbyn cysylltiad Rhyngrwyd Ffibr i'r Eiddo (FTTP), gyda chyflymder o hyd at 900mbps, gwelliant sylweddol o'r 1mbps yr oedd rhai yn eu derbyn yn flaenorol. Darparwyd hyn drwy raglen Partneriaeth Ffibr Openreach. Ariannwyd y gosodiad drwy gynllun Talebau Gigabit Llywodraeth Cymru a'r DU heb unrhyw gost i breswylwyr na busnesau.

Mae darparu isadeiledd digidol digonol yn cefnogi'r pum ffordd o weithio o dan yr egwyddor datblygiad cynaliadwy, chwilio am ddatrysiadau **hir dymor** sy'n **atal** cymunedau rhag cael eu gadael ar ôl neu arwahanrwydd digidol, drwy **integreiddio** a **chydweithio** gyda'n partneriaid, a **chynnwys** cymunedau. Bydd y gwaith yn sicrhau buddion uniongyrchol i'r nodwedd a ddiogelir **Oedran** ac **Anabledd,** ac yn gymorth i'r rheiny dan **anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Rhaglen Priffyrdd

Roedd Rhaglen Priffyrdd 2021 i 2022 yn cynnwys gwaith mawr ar draws y sir, ac rydym wedi llwyddo i gwblhau gwaith mewn dros ugain o leoliadau. Mae tri chynllun wedi'u symud drosodd i raglen 2022 i 2023 i'w cyfuno gyda gwaith arall yn yr ardal, gan leihau aflonyddwch a darparu gwell gwerth am arian. Yn ogystal â hyn, mae cynnydd yn y dyraniad eleni i £4 miliwn wedi'n caniatáu i adolygu ein hymagwedd i'r rhaglen gosod wyneb ffordd newydd, gan roi cyfle i gynnwys llawer mwy o ffyrdd bach, na fu modd i ni eu cynnwys yn flaenorol. Ar ôl paru'r gyllideb sydd ar gael i'r ffyrdd sydd angen eu gwella fwyaf, mae'r lleoliadau ar gyfer eleni yn cael eu rhestru ar y wefan, Rhaglen Rhoi Wyneb Newydd ar Ffyrdd 2022 i 2023. Rydym yn y broses o gadarnhau dyddiadau gyda'n contractwyr, a bydd y rhain yn cael eu hychwanegu at y dudalen we ar ôl cadarnhau.

Y tu hwnt i'r prif weithiau hyn rydym yn ymgymryd â gwaith gwella gyda'n timau mewnol. Mae hyn yn cynnwys cau ffyrdd er mwyn gallu cyflawni gwaith atgyweirio darnau, draenio a gwaith ategol eraill, gan arwain at welliannau hir dymor. Rydym hefyd wedi defnyddio

peiriant Jetpatcher, sydd wedi bod yn gweithio yn ardaloedd Tremeirchion a Chyffylliog yn ddiweddar. Rhwng mis Ebrill a Mehefin, mae gwaith ffordd wedi bod ar y gweill yn ardaloedd Melin y Wig a Betws Gwerfil Goch. Mae'r gwaith, sy'n cynnwys gwaith gosod wyneb newydd, yn ffurfio rhan o Raglen Ffyrdd Gwledig £1 miliwn y cyngor, ac yn dilyn gwaith diweddar yn ardal Cefn Meiriadog.

Gan **weithio ar y cyd** â'n cymunedau, mae'r gwaith hyn yn ceisio cynnal cyflwr da cyffredinol ein ffyrdd yn **hirdymor** ac **atal** digwyddiadau neu anafiadau. Hysbysir ein rhaglen wella drwy **gyfranogiad** aelodau lleol ac adborth preswylwyr.

Teithio i Eisteddfod yr Urdd

Roedd Cyngor Sir Ddinbych yn falch o ddarparu gwasanaeth bws gwennol rhwng canol tref Dinbych a Maes Eisteddfod yr Urdd rhwng 30 Mai a 4 Mehefin, yn rhad ac am ddim.

Gan **gydweithio** ac **integreiddio** gyda threfnwyr yr Eisteddfod, roedd y gwasanaeth yn gymorth i leihau tagfeydd o amgylch safle'r Eisteddfod ac **atal** unrhyw niwed i unigolion, ynghyd â bod yn well ar gyfer yr amgylchedd wrth gwrs. Roedd darparu cludiant am ddim hefyd o fudd i rai sy'n profi **anfantais economaidd gymdeithasol**, a gwella mynediad y rhai sydd â nodweddion a ddiogelir **Oedran** ac **Anabledd**.

Datgarboneiddio Teithio

Mae'r Cyngor wedi derbyn pum fan Toyota Proace City trydan newydd. Mae pob cerbyd newydd i'r fflyd, a gefnogwyd gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, yn gallu cyflawni ystod o 175 milltir, a fydd yn caniatáu i weithwyr y cyngor deithio o amgylch y sir gan wefru unwaith. Mae'r cerbydau trydan yn gymysgedd o faniau bach i ganolig a darperir gwasanaeth cefnogi gan y gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylchedd i TGCh a'r Gwasanaethau Tai. Ar draws y cyngor mae 25 o gerbydau trydan yn y fflyd.

Hefyd yn ystod y cyfnod hwn, gosodwyd dau bwynt gwefru cerbydau trydan ym maes parcio arhosiad byr Rhodfa Brenin. Bydd pob gwefrydd 50kw yn darparu cyfleusterau gwefru 'cyflym' dros bedwar gofod parcio cwbl hygyrch. Derbyniwyd cyllid ar gyfer y gwefrwyr 'cyflym', sy'n gallu ailwefru mwyafrif o fatris i 80% mewn llai nag awr, gan Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Hynod Isel Llywodraeth Cymru. Bydd y ddau wefrydd newydd yn ategol at waith i ddarparu pwyntiau gwefru cyflym i'r cyhoedd eu defnyddio mewn wyth maes parcio cyhoeddus yn Sir Ddinbych.

Mae'r enghreifftiau hyn o deithio heb allyriadau a theithio sy'n ymateb i alw yn ceisio **integreiddio** amcanion ar lefel genedlaethol a lleol, **cydweithio** gyda phartneriaid, a **chynnwys** defnyddwyr mewn datrysiadau **hirdymor** sy'n **atal** niwed a difrod pellach i'r amgylchedd.

Jiwbilî Platinwm y Frenhines

Cynhaliwyd ystod eang o ddathliadau ar draws y sir i ddathlu Jiwbilî Platinwm y Frenhines. Roedd y digwyddiadau yn ceisio uno'r gymuned, ac yn cynnwys digwyddiad am ddim i oleuo goleufa, a chystadleuaeth greadigol ar gyfer ysgolion. I gyd-fynd â goleuo'r oleufa, gwahoddwyd bawb oedd yn bresennol i ganu'r 'Song for the Commonwealth - A Life Lived with Grace', a enillodd gystadleuaeth ar draws y Gymanwlad. Bu i'r Cyngor gymryd rhan yng Nghanopi Gwyrdd y Frenhines, menter plannu coed ar draws y DU. Plannwyd Coeden y Jiwbilî, Poplys Du prin iawn sy'n gynhenid i lannau afon y sir, yng Nghae'r Ddôl, Rhuthun.

Mae digwyddiadau **ar y cyd** fel rhain, gan **integreiddio** gyda dathliadau ehangach, yn meithrin cydlyniant cymunedol drwy **ymgysylltiad**, a gwneud argraff gadarnhaol yn **hirdymor**. Gan fod y digwyddiad yn rhad ac am ddim, roedd o fudd i'r rhai sydd o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol**.

Cymunedau Cryf: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Rhagorol

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Bu gostyngiad o 24% yn nifer dioddefwyr eildro troseddau domestig yn Sir Ddinbych ym mis Ebrill, Mai a Mehefin 2022 o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Gostyngodd y niferoedd o 166 yn 2021 i 126. Ar y cyfan, mae Gogledd Cymru wedi gweld gostyngiad o 9.8% mewn trais domestig gyda dioddefwyr eildro. Mae nifer y rhai sy'n aildroseddu gyda Thrais Domestig hefyd wedi gostwng yn Sir Ddinbych o 18 eleni i 11 y flwyddyn hon, gostyngiad o 39%. Mae hyn yn debyg i'r darlun cyffredinol ar gyfer Gogledd Cymru.

Ar wefan cenedlaethol Dewis Cymru mae nifer yr adnoddau ar gyfer Sir Ddinbych wedi cynyddu o 533 i 553 yn y cyfnod diwethaf. Mae 11,012 o adnoddau ar gyfer Cymru ar Dewis Cymru ar hyn o bryd, a 2,614 ar gyfer Gogledd Cymru.

Cynhaliwyd 97 o asesiadau gofalwyr rhwng mis Ebrill a Mehefin. Mae hyn yn ostyngiad o 15% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd (114).

Mae'r data ar gyfer y cyfnod cyfartalog mae oedolion (65 oed a throsodd) yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl wedi cynyddu o 1,028 (mis Ionawr i fis Mawrth) i 1,059 diwrnod ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin. Mae hyn yn gynnydd o 3%.

Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

Yn profi rhwystrau: Cynnwys pobl wrth lunio a gwella gwasanaethau

Mae'r Polisi Ymgysylltu wedi'i gadarnhau; ond, i fodloni gofynion deddfwriaethol newydd, rydym yn awr yn ymchwilio a ellir defnyddio ein dysgu o'r prosiect i gefnogi datblygiad Strategaeth Gyfranogi. Mae hyn yn ategu at y Polisi Ymgysylltu drafft, y fframwaith ategol, templedi a phecynnau gwaith sydd wedi'u datblygu yn barod. Byddai hyn yn mynd â'r gwaith y tu hwnt i gwmpas y prosiect a mwy fel rhan o 'fusnes arferol'. Felly cynigir bod y

prosiect yn dod i ben ym mis Gorffennaf, ond yn parhau â'r amcanion prosiect sy'n weddill o fewn gwaith Gwasanaethau Cymunedol a Chwsmeriaid.

Ar y trywydd iawn: Datblygu Cymunedol Ledled y Sir

Mae'r Tîm Datblygu Cymunedol wedi parhau i oruchwylio a monitro darpariaeth 14 o brosiectau Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU yn Sir Ddinbych ac maent yn gwneud cynnydd da. Cwblhawyd y gwaith monitro canol tymor ar ddiwedd Mehefin a'i adrodd i Lywodraeth y DU. Mae aelodau'r tîm yn awr yn cefnogi darpariaeth y Gronfa Ffyniant Bro un diwrnod yr wythnos. Mae'r tîm hefyd wedi dosbarthu £17,888 i 16 o fentrau bwyd yn Sir Ddinbych o Gronfa Gymorth i Aelwydydd; ac yn cynrychioli Sir Ddinbych yn y paneli grant ar gyfer tair cronfa fferm wynt yn ystod y cyfnod, gyda chanlyniadau da o Brosiectau Sir Ddinbych.

Dosbarthwyd Newyddlen Datblygu Cymunedol ym mis Mai, yn tynnu sylw at straeon newyddion da, newyddion cyllid, a hyrwyddo gwaith y Tîm Datblygu Cymunedol. Mae'r tîm wedi cynnig arweiniad i o leiaf 26 o fentrau cymunedol gwahanol yn ystod y chwarter a darparu cefnogaeth barhaus i 7 prosiect. Mae'r Swyddog Digidol yn parhau i gefnogi amryw o gymunedau i archwilio cysylltedd band eang. Roedd y gwaith yn fwyfwy cymhleth yn ystod mis Ebrill i fis Mehefin wrth i Openreach gyhoeddi y byddent yn cau gweithrediadau Partneriaeth Gymunedol Ffibr am gyfnod estynedig tra bo Rhaglen y DU, 'Project Gigabit', yn destun caffael.

Ar y trywydd iawn: Technoleg Gynorthwyol

Mae'r prosiect, sy'n ceisio cynorthwyo cleifion dementia a dinasyddion sy'n profi unigrwydd a hwyliau isel, wedi mynd rhagddo'n dda o ran cynllunio o fis Ebrill i fis Mehefin. Rydym yn gwybod erbyn mis Awst, y bydd offer Teleofal byw yn cael ei osod yn y Ward Hyfforddi Gofal Cymdeithasol yng Ngholeg Llandrillo. Bydd y cyfleuster yn rhan o raglenni lefel 2 a 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Gyda chymeradwyaeth, gellir defnyddio data ac ystadegau o drin galwadau sy'n gysylltiedig â swyddogaethau Teleofal ar gyfer ymchwil ar raglenni gradd. Bydd cyfarfod hefyd yn cael ei drefnu gydag Adran Gyfrifiadureg Coleg Llandrillo i hwyluso gweithio gyda roboteg a'u defnydd mewn gofal cymdeithasol.

Ar y trywydd iawn: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Digidol

Bydd Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol yn parhau i weithio gyda Thîm Gwe'r cyngor ac mae cynlluniau ar y gweill i symud yr asesiad ariannol i ddewis ar-lein. Mae'r Tîm

Technoleg Gynorthwyol yn parhau ag atgyfeiriadau offer digidol a darpariaeth i'r gymuned. Cyflwynwyd cais i'r ffrydiau cyllid ar gyfer cydlynydd offer digidol.

Bydd prosiect Ymyrraeth Gynnar ac Atal Digartrefedd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hysbysu ac addysgu dinasyddion. Mae gan Shelter Cymru bresenoldeb da ar Facebook, Twitter ac Instagram eisoes; y gallwn ei ddefnyddio ymhellach i wella ein cynnig ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth digidol.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Data 2018 i 2022

Llinyn Mesur	**2018 - 2019**	**2021 - 2022**	**Statws**
Canran y bobl sy'n dweud eu bod wedi cael y wybodaeth neu'r cyngor iawn pan oedd arnynt ei angen - **wedi'i feincnodi'n lleol**	88	Dim data Dim arolwg	Derbyniol
Canran y gofalwyr sy'n dweud eu bod yn cael cefnogaeth i barhau i ddal ati i ofalu - **wedi ei feincnodi'n lleol**	55	Dim data Dim arolwg	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gwybod â phwy i gysylltu ynglŷn â'u gofal a chymorth - **wedi'i feincnodi'n lleol**	84	Dim data Dim arolwg	Derbyniol
Canran y bobl sy'n cytuno "mae fy ardal leol yn le ble bydd pobl yn tynnu at ei gilydd er mwyn gwella'r ardal leol" - **wedi'i feincnodi'n lleol**	59	63	Da
Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio eu hardal leol - **wedi'i feincnodi'n lleol**	27	20	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Ffigurau Prosiect Ailsefydlu'r DU ar gyfer Sir Ddinbych 2020 i 2022

Llinyn Mesur	2020 - 2021	2021 - 2022	Statws
Nifer y teuluoedd sydd wedi cael eu hadsefydlu o fewn Sir Ddinbych dan Brosiect Adsefydlu'r DU - **wedi'i feincnodi'n lleol**	5	6	Amherthnasol

Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

Llinyn Mesur	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Chwarter 1 2022 - 2023	Statws
Nifer cronnus (yn y flwyddyn hyd yma) y bobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig dro ar ôl tro, gan gynnwys achosion nad oeddynt yn droseddau (3 neu fwy mewn 12 mis, wedi'i fesur yn y flwyddyn hyd yma)	166	332	509	678	126	Amherthnasol. Cyfrif yn unig

Llinyn Mesur	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Chwarter 1 2022 - 2023	Statws
Nifer cronnus (yn y flwyddyn hyd yma) y bobl sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig dro ar ôl tro (3 neu fwy mewn 12 mis)	18	35	60	83	11	Amherthnasol. Cyfrif yn unig
Nifer yr adnoddau sy'n fyw ar wefan Dewis Cymru - **wedi'i feincnodi'n lleol**	565	620	532	533	552	Da
Nifer yr asesiadau o anghenion cymorth ar gyfer gofalwyr a wnaed yn ystod y flwyddyn	114	221	302	390	97	Amherthnasol. Cyfrif yn unig
Yr amser ar gyfartaledd y mae oedolion (65 mlwydd neu hŷn) yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl (mewn diwrnodau) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol**	1,053	1,050	1,044	1,028	1,059	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llesiant a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu at Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng **nghyswllt ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant, cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.** Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Cefnogaeth ar gyfer Ffoaduriaid o Wcráin

Ym mis Ebrill, cysylltodd y cyngor â'r gwirfoddolwyr oedd wedi cynnig derbyn teuluoedd sy'n ffoi o Wcráin fel rhan o'r ymrwymiad parhaus i gefnogi Cynllun Adsefydlu'r DU. Mae'r cyngor wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i wneud y trefniadau gofynnol i ddechrau adsefydlu teuluoedd o Wcráin. Os oes gan unrhyw un ymholiadau, neu'n dymuno cynnig llety, anfonwch e-bost at ukresettlement@denbighshire.co.uk.

Byddwn yn **cydweithio** ac yn **integreiddio** gyda llywodraethau cenedlaethol a gwirfoddolwyr i adsefydlu ffoaduriaid yn Sir Ddinbych, **gan gynnwys** y ffoaduriaid eu hunain yn y ffyrdd gorau i gefnogi integreiddio **hirdymor** ac **atal** caledi pellach. Bydd hyn yn sicrhau buddion i'r rheiny â'r nodweddion a ddiogelir, **Hil, Crefydd a Chredoau, Oedran, Beichiogrwydd a Mamolaeth,** yn ogystal â helpu'r rheiny sy'n debygol o fod dan **anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Taliadau cymorth costau byw

Mae'r cyngor wedi gweinyddu dros £3.2 miliwn mewn taliadau cymorth costau byw a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae 21,535 o bobl yn y sir eisoes wedi derbyn y taliad untro o £150. Bydd taliadau yn cael eu talu i rai gydag eiddo ym Mandiau Treth y Cyngor A-D; y rhai sy'n derbyn Cymorth Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar 15 Chwefror 2022 (waeth beth fo'u Band Treth y Cyngor); a'r rhai gydag eiddo ym Mand E Treth y Cyngor lle bo'r eiddo wedi derbyn addasiadau ar gyfer anabledd, gan ostwng y gwerth y gellir ei godi Fand D. Gwnaed y taliadau cyntaf i breswylwyr sy'n talu Treth y Cyngor drwy ddebyd uniongyrchol a dechreuodd y taliadau ym mis Mai. Bydd angen i breswylwyr nad ydynt yn talu drwy ddebyd uniongyrchol lenwi ffurflen gais fer ar wefan y cyngor.

Bydd y Tîm Gwydnwch Cymunedol hefyd yn rhannu gwybodaeth a chyngor gyda phreswylwyr yn ystod yr argyfwng costau byw presennol drwy gyfres o 20 sioe deithiol dros yr haf ar draws y sir. Bydd y sioeau teithiol yn cael eu cyflwyno mewn partneriaeth gydag ystod o sefydliadau, gan gynnwys Dŵr Cymru, Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych, Stop Loan Sharks Wales, Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych, Undeb Credyd Cambria, NEST, Cymru Gynnes a Groundwork Gogledd Cymru.

Mae'r fenter **ar y cyd** yn cyflwyno buddion uniongyrchol i'r rhai sy'n byw o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol.** Mae'n annog **cyfranogiad** a gobeithio y bydd yn cyflwyno syniadau newydd i **atal** niwed a diwallu anghenion ansylweddedig yn **hir dymor**. Bydd hyn yn **integreiddio** ein huchelgais gyda'n partneriaid, i **atal** caledi, o leiaf yn fyr dymor.

Cydnabyddiaeth i staff Sir Ddinbych yn y gwobrau cenedlaethol

Yn dilyn ein hadroddiad blaenorol o fis Ionawr i fis Mawrth a oedd yn nodi bod staff gofal cymdeithasol wedi'u henwebu ar gyfer gwobrau cenedlaethol, roedd gan Sir Ddinbych reswm i ddathlu ymhellach ar ôl i dri aelod o staff gael eu hanrhydeddu yn y seremoni wobrwyo ym mis Mai. Mae Gwobrau Gofal Cymdeithasol yn cydnabod, dathlu a rhannu gwaith nodedig y grwpiau, timau a sefydliadau mewn gofal cymdeithasol a gofal plant, ynghyd â gweithwyr gofal unigol ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat, gwrifoddol a chydweithredol yng Nghymru. Enillodd y rheolwr gwasanaeth, Alaw Pierce, wobr Gofalu yn Gymraeg, a oedd yn dathlu ei rôl i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl drwy ddarparu gofal o'r radd flaenaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Dathlwyd cyflawniadau dau aelod arall o staff am fynd y tu hwnt i'r galw i wneud gwahaniaeth wrth ddarparu gofal, sef Sheila Mullins, Cymhorthydd Gofal yng Nghartref Gofal Dolwen yn Ninbych, a Catherine Roberts, Rheolwr Cynorthwyol yng nghartref gofal Cysgod y Gaer, Corwen.

Rydym yn falch o'r ymrwymiad a'r ymroddiad gan ein timau gofal cymdeithasol, sy'n **cydweithio** ac yn **integreiddio** ar draws sefydliadau i ddarparu gwasanaethau ansawdd uchel bob dydd gyda gofal, trugaredd ac empathi. Rydym yn **cynnwys** pobl yn y broses o benderfynu ar y datrysiadau gofal cywir ar gyfer eu sefyllfa yn yr **hirdymor,** gan **atal** niwed i'r rhai mwyaf diamddiffyn (yn enwedig y rheiny â'r nodweddion â ddiogelir, **Oedran ac Anabledd).**

Community Catalysts a Chyngor Sir Ddinbych

Sefydlwyd menter newydd o'r enw 'Lean on Me' yn Nyserth ym mis Mehefin, gyda chefnogaeth partneriaeth rhwng menter gymunedol Community Catalysts a'r cyngor. Mae Community Catalysts yn cynnig cyngor proffesiynol am ddim i'ch helpu i weithio i chi eich hun yn cynnig gofal a chefnogaeth ar draws y sir. Mae nifer o bobl o ystod o gefndiroedd eisoes yn y broses o sefydlu yn Sir Ddinbych. Maent yn cynnig amryw o wasanaethau, cymorth gydag ymolchi a newid, coginio, glanhau, cymorth gyda hobïau a mwy.

Drwy **integreiddio** a **chydweithio,** bydd y fenter hon yn sicrhau buddion i'r rheiny â'r nodweddion a ddiogelir, **Oedran** ac **Anabledd.** Mae'n annog **cyfranogiad** a gobeithir y bydd yn helpu i datblygu ein cynnig gofal yn y sir, **atal** niwed, a bodloni anghenion unigol yn yr **hirdymor.**

Grant Unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol

Cyhoeddodd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych bod rownd newydd o Grant Unigrwydd ac Arwahanrwydd Cymdeithasol wedi'i ryddhau, mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru. Gall unrhyw un o unrhyw oedran ac unrhyw gefndir brofi unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol. Yn fwy a mwy rydym yn deall yr effaith mae hyn yn ei gael ar ein lles corfforol a meddyliol. Mae grantiau ar gyfer prosiectau unigol ar gael ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022 i 2023, a 2023 i 2024 am hyd at £5,000 y flwyddyn. Gellir gwneud cais am flwyddyn neu ddwy flynedd o gyllid. Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth.

Bydd **integreiddio** a **chydweithio** gyda'n partneriaid i gyflwyno'r grant yn **atal** niwed sy'n deillio o unigrwydd ac arwahanrwydd, yn **hir dymor** gobeithio. Oherwydd natur cymhwyso ar gyfer y cyllid hwn, dylai hyn gefnogi pobl gyda sawl nodwedd a ddiogelir fel **Oedran**, **Anabledd**, **Priodas** a **Phartneriaeth Sifil**, ynghyd ag unigolion sy'n byw mewn arwahanrwydd.

Cefnogaeth ar gyfer Wythnos Gweithredu Dros Ddementia yn Sir Ddinbych

Cefnogodd y cyngor Wythnos Gweithredu Dros Ddementia Cymdeithas Alzheimer rhwng 16 a 22 Mai, gan annog pobl i 'weithredu dros Ddementia', gyda'r ymgyrch eleni yn canolbwyntio ar ddiagnosis. Roedd digwyddiadau ar draws yr wythnos yn cynnwys Llyfrgell Jig-sô sy'n Deall Dementia (gan annog sgyrsiau a hel atgofion; ac ymarfer yr ymennydd); gweithgareddau rhith-wirionedd; beic hel atgofion yn un o'n cartrefi gofal; a

rhaglen ‘natur dros iechyd’ y Gwasanaeth Cefn Gwlad i wella lles corfforol a meddyliol drwy dreulio amser mewn natur. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau eraill ar draws y sir gyda nifer o sefydliadau yn cymryd rhan.

Bydd **integreiddio** a **chydweithio** gyda phartneriaid i hyrwyddo gweithgareddau dementia yn cefnogi’r nodweddion a ddiogelir, **Oedran ac Anabledd** yn uniongyrchol; bydd yn annog **cyfranogiad** ac yn cynnig cefnogaeth newydd i wella iechyd y rheiny sy’n byw â dementia, **atal** niwed ac yn bodloni anghenion nas diwallwyd yn yr **hirdymor**.

Gofal Maeth a Phythefnos Gofal Maeth

Ym mis Mai, cynhaliodd Maethu Cymru Sir Ddinbych ddigwyddiad croeso a rhannu gwybodaeth ym Mhafiliwn y Rhyl ar gyfer y rhai sydd eisiau gwybod mwy am faethu plant yn y sir. Roedd tîm Maethu Cymru Sir Ddinbych wrth law i siarad â’r rhai oedd a diddordeb mewn bod yn ofalwyr maeth, ynghyd â gofalwyr maeth lleol i rannu eu profiadau. Dathlwyd Pythefnos Gofal Maeth rhwng 9 a 22 Mai gan geisio tynnu sylw at y gwahaniaeth y mae gofalwyr maeth wedi’i wneud i fywydau plant, o ofalwyr maeth sydd wedi dangos ymroddiad dros sawl blwyddyn, i’r rhai sy’n dechrau eu taith yn maethu. Mae Pythefnos Gofal Maeth hefyd wedi tynnu sylw at y gwaith anhygoel a wnaed yn ystod y pandemig, gyda gofalwyr maeth yn mynd ati i greu ‘normal newydd’ cadarnhaol ar gyfer y pobl ifanc yn eu gofal. Yn ôl Maethu Cymru, mae dros 350 o deuluoedd yng Nghymru wedi dechrau maethu gyda’u hawdurdod lleol yn ystod pandemig Covid-19.

Mae Maethu Cymru eisiau annog pobl i fod yn ofalwyr maeth ar gyfer eu hawdurdod lleol er mwyn i blant allu aros yn eu hardal leol, yn agos at eu ffrindiau a’u teulu ac aros yn eu hysgol. Gall hyn helpu plant a phobl ifanc a gadw ymdeimlad o hunaniaeth mewn cyfnod ansefydlog. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn maethu, neu eisiau rhagor o wybodaeth, ewch i Wefan Maethu Cymru Sir Ddinbych.

Bydd y gwaith yn sicrhau buddion uniongyrchol i’r nodwedd a ddiogelir **oedran,** a’r rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithasol** o bosib. Trwy geisio **cynnwys** mwy o bobl i fod yn ofalwyr maeth, mae’r gwaith, mewn partneriaeth gyda Gofal Maeth Cymru, yn dangos **integreiddio** da, gwaith **ar y cyd** a meddwl yn **hirdymor** a fydd yn **atal** caledi a niwed i’n pobl ifanc.

Llyfrgell yn cynnal arddangosfa ar gyfer Mis Hanes Lleol

Mis Mai oedd Mis Hanes Lleol a nododd Llyfrgell y Rhyl y digwyddiad gydag arddangosfeydd ar sawl agwedd o'r dref. Roedd lluniau a dogfennau yn ymwneud â hanes chwaraeon ac adloniant wedi'u cynnwys, ynghyd ag edrych yn ôl ar ddyddiau ysgol, cludiant ac isadeiledd. Roedd ymwelwyr hefyd yn gallu cael mynediad at ystod lawn o adnoddau hanes lleol a theuluol, a oedd yn cynnwys papurau newydd yn dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif, ystod o luniau hanesyddol, cyfeiriaduron a phamffledi, ynghyd â mynediad am ddim i ancestry.com. Y gobaith oedd y byddai'r mis yn cynyddu diddordeb yn hanes y Rhyl, yr ystod o wybodaeth ac adnoddau sydd ar gael yn y llyfrgell, ac yn dod ag atgofion yn ôl ar gyfer y preswylwyr.

Mae ein llyfrgelloedd yn ganolfannau hanfodol o fewn ein cymunedau, ac yn sicrhau buddion i'r rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithasol** gan gynnig datrysiadau **hirdymor** sy'n **atal** unigrwydd, allgau a thlodi gwybodaeth drwy **integreiddio** a **chydweithio** gyda phartneriaid, gan **gynnwys** defnyddwyr.

Pleidleisio ym Mhafiliwn Llangollen

Gohiriwyd gwaith nos hanfodol, a oedd i fod i gael eu cynnal ar ddiwrnod yr etholiad, fel rhan o brosiect Llangollen 2020, i sicrhau bod preswylwyr Llangollen yn gallu parhau i gael mynediad at yr orsaf bleidleisio ym Mhafiliwn Llangollen o ochr ddeheuol y dref heb aflonyddwch. Arhosodd Heol y Castell ar agor drwy'r dydd heb unrhyw wyriadau yn eu lle.

Mae'n bwysig bod ein democratiaeth yn hygyrch i bob preswylydd, a'u bod yn cael eu cefnogi i **gymryd rhan** ynddo. Ym mis Medi, ymrwymodd y Cyngor i fod yn gyngor amrywiol sy'n cynrychioli ei drigolion. Bydd cymunedau'n elwa o gynrychiolaeth gyfartal yn yr **hirdymor**, gan waredu unrhyw rwystrau sy'n **atal** y rheiny â nodweddion a ddiogelir rhag cael eu clywed, gan gynnwys **anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Gwybodaeth am Bleidleisio drwy'r Post

Ymddiheurodd y cyngor ym mis Ebrill i rai sy'n pleidleisio drwy'r post yn y sir oherwydd gwall mewn taflen wybodaeth a anfonwyd gyda'r papurau pleidleisio drwy'r post. Roedd y daflen wybodaeth yn cyfeirio at y papurau pleidleisio anghywir ac yn hysbysu'r pleidleiswyr mai dim ond dros un ymgeisydd y gellir pleidleisio, a oedd yn anghywir ar gyfer wardiau gyda mwy nag un aelod ac ar gyfer etholiadau Cyngor Tref a Chymuned. Fe wnaeth hyn arwain at straeon negyddol yn y newyddion. Ond, bu i'r cyngor ymdrechu'n galed i liniaru'r

gwall, gan geisio cyngor gan y Comisiwn Etholiadol a Chymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol; gan rannu'r daflen wybodaeth gywir ar y wefan, cysylltu â 6,900 o bleidleiswyr trwy'r post a 285 o bobl eraill drwy neges destun.

Bydd cymunedau'n elwa o gynrychiolaeth gyfartal yn yr **hirdymor**, gan waredu unrhyw rwystrau sy'n **atal** y rheiny â nodweddion a ddiogelir rhag cael eu clywed, gan gynnwys **anfantais economaidd-gymdeithasol**.

Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i diogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd

Llinynnau mesur: Da

Prosiectau: Rhagorol

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Adroddir ar y llinynnau mesur perfformiad o dan y flaenoriaeth hon yn flynyddol ac maent wedi'u nodi yn ein hadroddiad blaenorol.

Nid oes gennym wybodaeth ar hyn o bryd am gyfanswm effaith economaidd twristiaeth (£ miliwn) ar gyfer 2021 - 2022, bydd y data hwn yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref fel arfer.

Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

Yn profi rhwystrau: Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol

Mae'r hyder yn ei gyflawniad yn cael ei nodi fel yn profi rhwystrau ar hyn o bryd. Mae cyflawniad llwyddiannus y prosiectau yn ymddangos yn debygol, ond mae materion sylweddol eisoes yn bodoli sydd angen sylw gan reolwyr. Ymddengys y gellir datrys y rhain ar hyn o bryd, ac os cânt sylw ar unwaith ni ddylent achosi unrhyw gostau neu oedi ychwanegol yn yr amserlen. Mae gwaith Ecolegol Gadarnhaol yn gwneud yn dda yn y cam cynnar hwn yn y rhaglen. Mae gwaith lleihau'r gadwyn gyflenwi yn parhau gyda dull cytunedig i'w ddefnyddio er budd lleol.

Ar gau: Coridor Byd Natur

Mae'r prosiect wedi dod i ben yn awr. Mae nifer o gysylltiadau gwyrdd pwysig wedi'u ffurfio drwy ardal y prosiect i ffurfio'r coridor gwyrdd, gyda newidiadau pwysig i'r tirlun mewn sawl safle, gan gynnwys gwlypdiroedd Prestatyn, Ffos y Rhyl, Ffordd Cilgant, ar draws nifer o diroedd ysgolion, a safleoedd cefn gwlad eraill yn yr ardal. Mae'r prosiect yn hynod amrywiol, ac rydym yn falch o'r amcanion a gyflawnwyd.

Yn ystod y cam olaf mae gwaith ymgysylltu da wedi parhau, a oedd yn cynnwys ymweliadau nythfa môr-wenoliaid bach a sesiynau addysgol ysgolion, sesiynau crefftau ar

ôl ysgol, cerdded Nordig, a sesiynau gweithgareddau ar gyfer oedolion ar bobi a garddio. Bu sesiynau gwirfoddoli ymarferol wythnosol yn parhau, er enghraifft, yn safle rhandiroedd Ffordd Cilgant. Gwnaed darpariaeth ble bynnag y bydd ein presenoldeb yn lleihau i sicrhau bod adnoddau ar gael ar gyfer grwpiau ac ysgolion i barhau'r gwaith yr ydym wedi'i ddechrau.

Er yr heriau amlwg yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r prosiect wedi aros ar y trywydd cywir, ac mae wedi'i gwblhau i lefel dda a boddhaol i ni a Llywodraeth Cymru sydd wedi mynegi pa mor fodlon y maent gyda'r prosiect. Rydym wedi cyrraedd cynulleidfa eang, ac mae nifer o'r grwpiau a'r ysgolion yn drist o weld y prosiect yn dod i ben. Ond, bydd ein hymgysylltiad gyda nhw yn parhau drwy brosiectau eraill pan fo modd.

Ar y trywydd iawn: Rheoli Rhostir

Mae'r prosiect yn parhau ac ar y trywydd cywir a'r dyddiad cwblhau disgwyliedig yw Hydref 2023. Mae'r prosiect hadu Moel y Faen ym mis Hydref 2021 wedi profi'n rhannol lwyddiannus gyda hadau gwair ucheldir yn blodeuo mewn rhai ardaloedd. Gobeithir wrth i ni symud i'r haf y bydd effaith y gwaith hadu'n dod yn fwy amlwg.

Cynllun Amddiffyn Arfordir Canol y Rhyl a Phrestatyn

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi derbyn caniatâd cynllunio i gyflawni'r gwaith i ddisodli amddiffynfeydd arfordirol yng Nghanol y Rhyl a Phrestatyn. Bydd cynlluniau amddiffyn yr arfordir yn rhoi amddiffyniad digonol i'r ddwy dref yn erbyn lefelau'r môr sy'n cynyddu a'r stormydd sy'n deillio o newid hinsawdd. Ym mis Gorffennaf ac Awst 2021, gwahoddodd y cyngor breswylwyr i gymryd rhan mewn ymgynghoriad i ddeall eu blaenoriaethau a'u pryderon posibl ar gyfer y cynlluniau. Mae'r adborth wedi'i gasglu ac mae'n cael ei ddefnyddio drwy ddatblygiad y prosiectau.

Mae Cynllun Amddiffyn Arfordir Canol y Rhyl yn ymwneud â phellter o oddeutu 2km o Splash Point i ardal y Parc Drifft, ac mae'n rhan o brosiect ehangach y cyngor i Adfywio'r Rhyl. Bydd y cynllun yn cynnwys gosod deunyddiau i atal erydu ac atgyweiriadau concrid i'r morgloddiau presennol, wal gynnal goncrid i amsugno egni'r tonnau ac i ddarparu mynediad at y traeth, wal amddiffyn rhag llifogydd newydd, ynghyd â chodi a lledu'r promenâd. I ddysgu mwy am Gynllun Amddiffyn Arfordir Canol y Rhyl, ewch i'n gwefan.

Mae cynllun amddiffyn arfordir Canol Prestatyn yn canolbwyntio ar y rhan o'r arfordir sy'n peri'r pryder mwyaf, gerllaw Clwb Golff y Rhyl, a fydd yn amddiffyn eiddo ym Mhrestatyn.

Bydd hyn yn cynnwys adeiladu arglawdd pridd sy'n cael ei osod yn ôl oddi wrth yr amddiffynfeydd blaenaf, yn dilyn ffin Cwrs Golff y Rhyl. Pe byddai storm yn peri i'r tonnau dorri dros yr amddiffynfeydd byddai'r dŵr llifogydd yn aros ar y cwrs golff hyd nes y byddai modd iddo ollwng yn ôl i'r môr. I ddysgu mwy am Gynllun Amddiffyn Arfordir Canol Prestatyn, ewch i'n gwefan.

Yn wynebu risg: Tai Cyngor sy'n Defnyddio Ynni'n Effeithlon

Er bod ein hyder o ran cyflawni wedi cael ei effeithio gan Covid-19, mae nifer o gontractau gwaith bellach wedi cael eu hail-sefydlu ers y pandemig, gyda rhagor o brosiectau ar y gweill yn ystod 2022 - 2023. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â gwaith allanol, gan gynnwys mesurau insiwleiddio a gwresogi sy'n haws i'w cyflawni i'r stoc dai ar y funud.

Mae ymgynghoriad Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 wedi cau yn awr, a disgwylir dogfen ddrafft erbyn diwedd y flwyddyn. Rydym yn credu y bydd y polisi newydd yn cael effaith sylweddol ar dargedau ar lefel genedlaethol, ac mae'n bosibl y bydd yn dylanwadu ar raglenni gwaith i'r dyfodol a phenderfyniadau rheoli asedau allweddol ar gyfer ein stoc dai.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Data 2020 i 2022

Llinyn Mesur	**2020 - 2021**	**2021 - 2022**	**Statws**
Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru oherwydd staff yn teithio i'r gwaith - **wedi'i feincnodi'n lleol**	1,719	2,045	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru oherwydd teithiau busnes - **wedi'i feincnodi'n lleol**	126	163	Rhagorol
Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru oherwydd cadwyni cyflenwi - **wedi'i feincnodi'n lleol**	22,206	31,409	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llinyn Mesur	2020 - 2021	2021 - 2022	Statws
Y ganran o dir y mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu sydd yn y categorïau uchaf yn ôl cyfoeth rhywogaethau - **wedi'i feincnodi'n lleol**	38.1	41	Derbyniol
STEAM - Cyfanswm Effaith Economaidd Twristiaeth (£ miliwn) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	213	Aros am ddata	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran stoc dai presennol ac wedi'i gaffael gan y cyngor (gwaelodlin 1 Ebrill 2017) yn cyflawni graddfa EPC (Ynni) C neu well - **wedi'i feincnodi'n lleol**	46	53	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Nifer y coed a blannwyd yn flynyddol i gynyddu'r gorchudd o goed yn y Rhyl a Dinbych - **wedi'i feincnodi'n lleol**	4400	3,500	Rhagorol
Nifer yr eiddo gyda llai o risg o lifogydd **- wedi'i feincnodi'n lleol**	Dim data	1,650	Rhagorol

Arolwg Rhanddeiliaid 2018 i 2022

Llinyn Mesur	2018 - 2019	2021 - 2022	Statws
Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? – Cefn Gwlad – **wedi'i feincnodi'n lleol**	87	85	Rhagorol
Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? Traethau – **wedi'i feincnodi'n lleol**	70	69	Da
Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? - Parciau – **wedi'i feincnodi'n lleol**	64	59	Derbyniol

Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

Nid yw ein llinyn mesur ar ganran y tai cyngor newydd sy'n cael sgôr EPC (Ynni) A ar gyfer 2021-2022 yn berthnasol gan na chwblhawyd unrhyw waith adeiladu yn y cyfnod

hwn. Fodd bynnag, disgwylir y bydd 40 o dai newydd yn cyflawni sgôr EPC (Ynni) A yn 2022-2023.

Llesiant a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n cefnogi Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **cadernid, ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant, cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.** Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Awyr Dywyll

Mae goleuadau allanol Parc Gwledig Loggerheads yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi'i newid i wella ansawdd awyr y nos yn yr ardal. Mae'r goleuadau yn awr yn oleuadau LED, sy'n gweithredu ar sawl synhwyrydd symudiad, ac wedi'u hamddiffyn yn llwyr felly nid oes golau yn disgleirio am i fyny ac mae'n canolbwyntio lle mae ei angen yn unig. Ym mis Ebrill, enillodd y prosiect i droi'r man prydferth yn barth cyfeillgar awyr dywyll Wobr Goleuadau Da gan Gomisiwn Awyr Dywyll, sefydliad sy'n ceisio amddiffyn awyr y nos er mwyn syllu ar y sêr.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus y llynedd, mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn gwneud cais am statws Cymuned Awyr Dywyll gyda Chymdeithas Ryngwladol Awyr Dywyll. Cyrhaeddodd elfen newydd i'r tîm i hyrwyddo'r fenter ym mis Mai, ar ffurf fan Awyr Dywyll drydan a ddyluniwyd i ddarparu golygfan berffaith o awyr y nos yn lleol. Bydd y fan drydan Renault Kangoo Z.E sydd ag ystod o 170 milltir yn cynnwys offer astronomicaidd, gan gynnwys telesgopau. Bydd staff yn defnyddio'r fan i gynnal digwyddiadau cyhoeddus Awyr Dywyll ar draws yr ardal leol, fel cawod sêr gwib Perseid ym mis Awst, a Geminids yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan yr AHNE.

Bydd **cynnwys** pobl a chodi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd ein hawyr dywyll yn helpu i **atal** niwed a'u diogelu er lles **hirdymor** cenedlaethau'r dyfodol, yn ogystal â chael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth (y mae 60% ohono'n dibynnu ar dywyllwch i oroesi), a rhoi hwb i'r economi leol yn ystod y tymor tawelach. Bydd hefyd yn lleihau llygredd golau ac allyriadau CO2.

Cerbyd Gwasanaeth Trydan

Mae cerbyd tasgau gwasanaeth sy'n cael ei bweru gan drydan (e-UTV) wedi ymuno â'n fflyd ac yn awr wedi'i leoli ym Mharc Gwledig Loggerheads. Mae'n cynnig dewis dim allyriadau i geidwaid cefn gwlad er mwyn cyflawni eu dyletswyddau dyddiol. Gallai tasgau y mae e-UTV yn eu cyflawni yn ystod y dydd gynnwys casglu sbwriel yn Nhŵr y Jiwbilî, ymweld ag anifeiliaid sy'n pori, neu gefnogi staff sy'n gwneud gwaith ar lwybrau a ffiniau ym Mharc Gwledig Loggerheads.

Wedi'i brynu mewn **cydweithrediad** gyda Llywodraeth Cymru, gan **integreiddio** gyda Rhaglen Lleoedd Cynaliadwy Tirluniau Cynaliadwy, bydd defnyddio cerbydau dim allyriadau fel hyn yn cyflwyno buddion amlwg i'r amgylchedd yn **hirdymor** ac yn **atal** niwed. Bydd **cyfranogiad** staff yn ein caniatáu i ddysgu am allu'r cerbyd er mwyn gweld sut y gallai cerbydau fel hyn neu debyg gefnogi safleoedd gwledig a phrosiectau eraill yn y dyfodol.

Safleoedd Blodau Gwyllt

Mae'r cyngor yn rheoli dros 100 o safleoedd dolydd blodau gwyllt, gan gynnwys 11 gwarchodfa natur ar ymyl y ffordd. Mae'r safleoedd hyn yn gyfystyr â 35 o gaeau pêl-droed o laswelltir. Mae'n ofynnol wrth reoli dolydd blodau gwyllt na fydd torri gwair yn digwydd rhwng mis Mawrth a mis Awst bob blwyddyn, sy'n galluogi digon o amser i'r blodau gwyllt dyfu, blodeuo a hadu. Ar gyfer y safleoedd hyn, bydd y tîm bioamrywiaeth yn monitro'r twf a'r gwellhad bioamrywiaethol bob mis a dim ond y border o amgylch y safleoedd hyn y bydd y Gwasanaethau Stryd yn ei dorri yn ystod yr amser hwn. Yna, bydd y safleoedd yn cael eu torri'n llawn ar ddechrau fis Medi. Bydd tîm bioamrywiaeth y cyngor yn ymgysylltu â phreswylwyr ger y safleoedd newydd i egluro sut mae'r prosiect yn gweithio er budd ac i wella bioamrywiaeth y sir.

Mae un safle o'r fath, gyda chymorth gwirfoddolwyr, wedi cynorthwyo i gynnal safle blodau gwyllt yn Rhuthun i fod yn llawn lliw. Yr Hydref diwethaf, cynorthwyodd Cyfeillion y Ddaear Rhuthun ynghyd â gwirfoddolwyr lleol eraill ac aelodau o staff i blannu miloedd o blanhigion bywyd gwyllt ar ymyl y ffordd yng Nglasdir. Diolch i gymorth y gwirfoddolwyr, mae blodyn neidr yn blodeuo yn y safle yn awr.

Mae safle arall yn Ninbych yn sylfaen ar gyfer ffordd naturiol, gwreiddiol a hunangynhaliol o gadw hyd y glaswellt ar y dolydd yn fyrrach pan fyddant yn eu tymor. Yn ystod mis

Mehefin arolygodd y tîm Bioamrywiaeth ran o'r ddôl yn rhan Isaf Dinbych lle y plannwyd hadau cribell felen, o ddôl arall yn y dref. Roedd hyd y glaswellt yn fyrrach, ond roedd nifer y blodau gwyllt wedi cynyddu. Mae hyn o ganlyniad i natur barasitig y gribell felen sy'n defnyddio gwreiddiau glaswelltydd a phlanhigion eraill i ddwyn eu maeth. Mae hyn wedi lleihau y glaswelltydd yn y ddôl, gan ganiatáu i fwy o flodau gwyllt brodorol i ffynnu. Mae hyn wedi arwain at fwy o fwyd ar gyfer pryfed sy'n peillio a'u hysglyfaethwyr, ac yn golygu bydd mwy o siawns o lwyddiant ar gyfer cynlluniau i gyflwyno blodau gwyllt lleol newydd sy'n cael eu tyfu ym Mhlanhigfa Goed Sir Ddinbych, gyda llai o gystadleuaeth gan ddolydd glaswellt.

Trwy **gynnwys** gwirfoddolwyr a chodi ymwybyddiaeth o sefydlu safleoedd blodau gwyllt ar draws y sir gallwn warchod a **diogelu** yr amgylchedd. Mae defnyddio dulliau naturiol a hunangynhaliol fel cribell felen yn dangos ein hymagwedd **hir dymor** o ran cynyddu blodau gwyllt er budd cymunedau lleol, rhywogaethau planhigion a phryfed cynhenid. Am fwy o wybodaeth am safleoedd blodau gwyllt, ewch i'n gwefan.

Ystafell Ddosbarth Coetir

Mae gwaith wedi'i gyflawni ar hen gae ysgol gynradd yn Stryd Llanrhydd, Rhuthun i sefydlu coetir newydd, lle y plannwyd 800 o goed eisoes eleni. Mae ardal ystafell ddosbarth awyr agored unigryw wedi'i ffurfio ar y safle yn awr, nid yn unig i helpu plant ddysgu am fioamrywiaeth ond hefyd i roi help llaw i breswylwyr nosol lleol? Mae'r ystafell ddosbarth wedi'i hadeiladu o goed gan grefftwr lleol, Huw Noble, sydd wedi cynnwys 'To i Ystlumod' yn y strwythur, a ddyluniwyd yn arbennig i ddarparu nodweddion y mae ystlumod eu hangen i glwydo yn ystod y dydd. Dros amser, wrth i rywogaethau ddatblygu ar y safle, gobeithir y bydd y strwythur yn cefnogi poblogaethau lleol y creaduriaid prin hyn.

Bydd y prosiect **cydweithredol,** a oedd yn **cynnwys** gwirfoddolwyr, disgyblion ysgol ac aelodau lleol, a fydd yn gymorth i amddiffyn ac **atal** niwed i'r boblogaeth leol o ystlumod yn **hirdymor,** ynghyd â chefnogi dysgu a dealltwriaeth pobl ifanc am bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r amgylchedd.

Gwirfoddolwyr yn cefnogi nythfa Môr-wenoliaid Gronant.

Mae Grŵp Môr-wenoliaid bach Gogledd Cymru wedi cynorthwyo staff Gwasanaeth Cefn Gwlad y cyngor i osod pedwar cilomedr o ffens ar draeth Gronant ger Prestatyn i greu gofodau diogel i adar nythu. Y grŵp o Fôr-wenoliaid Bychain ar draeth Gronant ger

Prestatyn yw'r nythfa fridio fwyaf yng Nghymru. Mae'r safle ar y traeth yn adnabyddus yn rhyngwladol ac mae'n cyfrannu at dros 10% o gyfanswm y niferoedd bridio yn y DU. Mae môr-wenoliaid bach ar y safle hefyd wedi cynyddu mewn nifer, gyda chyfrif diweddar yn cofnodi dros 200 o adar sy'n oedolion.

Bydd **cyfranogiad** pwysig y gwirfoddolwyr hyn yn **diogelu'r** adar rhag niwed ac yn sicrhau eu dyfodol **hirdymor** ar y safle. Mae'r safle'n hygyrch i bawb, gan gynnwys y rhai o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol**, ac anogir unrhyw un sydd eisiau dod i weld y nythfa i ddod i'r platfform neu'r ganolfan ymwelwyr gyda phâr o finocwlars er mwyn atal unrhyw aflonyddwch i'r adar sy'n nythu. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli, anfon e-bost at littleternengagement2022@outlook.com i gael rhagor o wybodaeth.

Gwasanaeth ailgylchu a gwastraff newydd Sir Ddinbych

Oherwydd y cynnydd sylweddol mewn chwyddiant sy'n effeithio ar gostau nwyddau a deunyddiau yn y 12 mis diwethaf, cyflwynwyd cais i Lywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol o £1.588m ar gyfer y prosiect hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r cyllid ychwanegol, ac fe gyflwynwyd fersiwn newydd o'r achos busnes yn adlewyrchu'r gost ddiweddaraf, y gyllideb a sefyllfa refeniw yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Ebrill, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf ar drefniadau gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu, fydd yn cael eu cyflwyno'r flwyddyn nesaf.

Bydd y gwasanaeth yn cyflwyno casgliad ailgylchu eitemau'r cartref yn wythnosol gan gynnwys papur, gwydr, caniau, plastig, gwastraff bwyd; a chasgliad newydd bob pythefnos ar gyfer dillad ac eitemau bach. Bydd casgliadau gwastraff nad yw'n wastraff y gellir ei ailgylchu yn newid o bob pythefnos i bob pedair wythnos, ac yn hytrach na'r biniau du 140 litr presennol, bydd y cyngor yn darparu biniau du 240 litr mwy lle bo'r angen. Bydd y cyflwyniad yn dechrau yn yr hydref 2023, ar ôl cwblhau depo gwastraff canolog ar Ystâd Ddiwydiannol Colomendy yn Ninbych, lle bo gwaith galluogi eisoes wedi'i gwblhau ar y safle.

Trwy weithio **ar y cyd** ac **integreiddio** gydag uchelgais Llywodraeth Cymru i wella ailgylchu Cymru, mae datblygu'r depo gwastraff newydd wedi hwyluso estyniad i'r Ystâd Ddiwydiannol, gan ganiatáu i gwmnïau sydd wedi hen sefydlu a chwmnïau lleol ehangu, cyflogi mwy o bobl (gan helpu rhai o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol**), a

sicrhau eu dyfodol yn Ninbych. Bydd gwella ailgylchu yn elwa ac **amddiffyn** ein hamgylchedd yn **hirdymor.**

Gwasanaeth Bws Darluniadwy

Mae Gwasanaeth Bws Darluniadwy Dyffryn Dyfrdwy wedi ailddechrau ar ddydd Sadwrn o fis Mai tan fis Hydref, gan wella mynediad at gyrchfannau allweddol yn y tirlun hardd a hanesyddol. Mae'n daith gylchdro sy'n cysylltu Llangollen a'r pentrefi cyfagos ag atyniadau poblogaidd fel Traphont Ddŵr Pontcysyllte, Gwarchodfa Natur Wernffrwd, Rhaeadr y Bedol, Abaty Glyn y Groes, Plas Newydd a Bwlch yr Oernant. Mae'r bws yn cynnig cyfleuster camu ymlaen a chamu i ffwrdd gyda phris tocyn 1Bws yn caniatáu teithio'n ddiderfyn ar y gwasanaeth drwy'r dydd.

Mae'r gwasanaeth yn bosib drwy **integreiddio** a **chydweithio** gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru a phrosiect Ein Tirlun Darluniadwy. Bydd yn lleihau'r galw am ofodau parcio ac yn galluogi pobl i ymweld â'r lleoliadau hyn heb fod angen car, gan elwa nodweddion a ddiogelir **Oedran** ac **Anabledd**, ynghyd â'r rhai o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol**. Bydd llai o draffig hefyd yn **atal** niwed i unigolion a thagfeydd mewn rhai o safleoedd prysuraf Dyffryn Dyfrdwy, ynghyd â darparu buddion i'r amgylchedd yn **hirdymor.** Ar gyfer yr amserlen lawn a phrisiau tocynnau ar gyfer y Gwasanaeth Bws Darluniadwy, ewch i wefan yr AHNE.

Gwella'r croeso i ymwelwyr yn Rhaeadr y Bedol, Llantysilio

Ar ôl chwe mis o baratoi, mae'r ardal o amgylch y pwynt derbyn a thŷ'r mesurydd yn Rhaeadr y Bedol wedi'i drawsnewid i greu gwell croeso i ymwelwyr. I ddathlu hyn, agorwyd Cwt y Fforddolwyr yn ffurfiol i'r cyhoedd ym mis Mehefin, ar ôl bod ar gau am sawl blwyddyn.

Bydd y prosiect **ar y cyd** ac **integredig** hwn gyda Phrosiect Ein Tirlun Darluniadwy, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ac Ymddiriedolaeth Afonydd a Chamlesi, a chyllid cyfalaf y Pethau Pwysig gan Lywodraeth Cymru yn **amddiffyn** a gwarchod treftadaeth Dyffryn Dyfrdwy ac yn galluogi pobl i gael gwell mynediad, i **gyfranogi**, ac i ddeall hanes ein hardal leol yn **hirdymor.** Bydd pobl dan **anfantais economaidd-gymdeithasol** yn elwa o hyn.

Llwybrau Tref Sir Ddinbych

Mae Tîm Twristiaeth y cyngor wedi bod yn diweddaru eu hystod o Lwybrau Tref, sy'n ceisio ysbrydoli ymwelwyr a phobl leol i archwilio trefi yn Sir Ddinbych. Yn ddiweddar mae llwybrau Rhuthun a Llangollen wedi'u diweddaru i adlewyrchu newidiadau diweddar i'r trefi, gan gynnwys tynnu sylw at ganolbwynt cymunedol newydd yn yr hen lys yn Rhuthun; a gwarchodfa natur newydd yn Wenffrwd, Llangollen. Llwybr Corwen fydd y Llwybr Tref nesaf i gael ei ddiweddaru i gynorthwyo i hyrwyddo'r platfform rheilffordd newydd ar gyfer Gorsaf Corwen, ac ymdrechion gwirfoddolwyr Amgueddfa Corwen.

Yn ogystal â'r Llwybrau Tref ar-lein, mae'r tîm twristiaeth wedi cynhyrchu taith glywedol yn y Rhyl, sy'n ceisio denu cynulleidfa ehangach, annog balchder yn y dref, cynaliadwyedd, a hyrwyddo lles drwy annog pobl i gerdded. Mae'r llwybr clywedol yn cynnwys gwybodaeth am hanes y Rhyl ac ar gael i bobl wrando wrth gerdded, yn eu cartrefi, neu unrhyw fan arall. Mae ar gael ar y ddolen gyswllt yma

Mae'r canllawiau hyn yn annog **cyfranogiad** a bydd yn elwa nodweddion a ddiogelir **Oedran** ac **Anabledd**, ynghyd â'r rhai sydd o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol**. Os yn llwyddiannus, mae'r cyngor yn gobeithio dyblygu llwybr clywedol y Rhyl ar gyfer trefi eraill yn Sir Ddinbych yn y dyfodol.

Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Mae dwy elfen o wybodaeth i'w nodi yn yr adroddiad hwn o ran ein fframwaith data ar gyfer Pobl Ifanc. Mae wedi'i gadarnhau yn awr na fydd data ar gyfer 2019 i 2020 ar gyfer Rhaglen Mesur Plant y GIG, oherwydd effaith y pandemig ar gasglu data. Roedd hyn i'w ddisgwyl, a bydd yn effeithio ar ein data tueddiadau ar gyfer canran y plant 4-5 oed sydd â phwysau iach neu dan bwysau. Ni wnaed cyhoeddiad eto am 2021 i 2022.

Mae'r ail linyn mesur yn ymwneud â'r cyfrif hawlwyr 18 - 24. Yn unol â'r tueddiadau cenedlaethol, dengys data Ebrill i Fehefin bod cyfrif hawlwyr Sir Ddinbych yn parhau i ostwng, ac mae wedi gostwng yn is na lefelau cyn y pandemig (6.5%), yn awr yn 4.9% (i lawr o 6.2% ym mis Mawrth). Rydym yn parhau i fod y tu ôl i gyfartaledd Cymru, sef 4.1%. Mae'n werth nodi fod Sir Ddinbych 2% y tu ôl i gyfartaledd Cymru cyn y pandemig, ond mae bellach 0.8% y tu ôl i gyfartaledd Cymru. Nid yw cyfrif hawlwyr y DU wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig (sydd yn hanesyddol wedi bod yn llai na Chymru), sy'n parhau i fod ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru, ar 4.4%.

Nid oes unrhyw ddata wedi'i gyhoeddi mewn perthynas â chyraeddiadau a phresenoldeb ysgolion yn sgil effaith y pandemig. O ran presenoldeb, hysbyswyd rhieni a gofalwyr yn Sir Ddinbych ym mis Mai bod Llywodraeth Cymru wedi symud yn ôl i ddefnyddio Rhybuddion Cosb Benodedig ar gyfer diffyg presenoldeb mewn ysgolion, i sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn addysg. Disgwylir y dylid rhannu unrhyw anawsterau a materion sy'n effeithio ar bresenoldeb rheolaidd plentyn gyda'r ysgolion.

Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

Yn profi rhwystrau: Moderneiddio Addysg

Mae gwaith yn parhau ar ddatblygiad Ysgol Plas Brondyffryn. Cyflwynwyd Achos Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Ebrill ac mae wedi'i ystyried gan y prif banel ym mis Mehefin. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi eu bod yn cefnogi'r egwyddor ar gyfer adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn, ond maent yn pryderu am faint cyffredinol yr adeilad. Rydym yn gweithio gyda'r ysgol a'n haddysgwyr i gyfiawnhau pam bod angen y gofod ac maent yn trafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'r drafodaeth yn canolbwyntio ar dri safle yn uno mewn un adeilad, meintiau dosbarthiadau bach oherwydd natur y disgyblion a phwysigrwydd y caffi. Mae Wates wedi dechrau Cam 3 y dyluniad, ac yn cynnal cyfarfodydd gyda'r ysgol i ddatblygu ymhellach. Bydd amserlen y prosiect yn newid oni cheir cytundeb am faint yr adeilad. Roedd ymgynghoriad cyn y cais cynllunio i fod i ddechrau ym mis Mehefin, ond mae hyn wedi'i ohirio yn awr. Bydd yr holl ymgynghori, gan gynnwys cynyddu capasiti'r ysgol, yn cael ei ohirio nes y cytunir ar benderfyniad, gan eu bod yn cyd-fynd â'i gilydd.

Mae'r dewisiadau yn parhau i gael eu harchwilio ar gyfer Ysgol Pendref, a'r dewisiadau ar gyfer cynllun Ysgol Bryn Collen / Ysgol Gwernant gan benseiri allanol yn cael eu hasesu. Mae sgyrsiau cychwynnol wedi dechrau gydag Ysgol Uwchradd Dinbych o ran buddsoddi ar y safle.

Yn profi rhwystrau: Lleoliadau Gofal Plant

Mae gwaith adeiladu yn parhau ar estyniad Canolfan y Dderwen, er bod rhai elfennau wedi'u hoedi, gan symud ein dyddiad cwblhau disgwyliedig i fis Tachwedd yn hytrach na mis Medi. Mae'r uwch strwythur dur a gwaith maen wedi'i gwblhau, ac mae gwaith ar y draeniau a'r to wedi dechrau. Trefnwyd bod y gwaith mewnol yn y ganolfan bresennol yn dod i ben ym mis Medi.

Mae cais i amrywio'r cyllid ar gyfer cyfleuster gofal plant Ysgol Twm o'r Nant wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Yn sgil hynny, mae gwaith caffael pellach wedi'u cyflawni gyda'r contractwyr i dderbyn costau newydd a chydymffurfio â Rheoliadau Caffael. Mae'r amser a gymerwyd i geisio cyllid ychwanegol wedi arwain at oedi ein cerrig milltir i ddyfarnu'r contract a dechrau'r gwaith ar y safle.

Mae gwaith ar gyfleuster gofal plant Ysgol Dewi Sant hefyd wedi'i ohirio wrth i ni barhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru o ran cyllid ychwanegol i ddiwallu costau cynyddol. Rydym wedi canfod costau ychwanegol mewn perthynas â'r draenio sydd ei angen ar y safle, a fydd angen ei gynnwys yn ein cais.

Ar gau: Prosiect Maetheg Ysgolion

Recriwtiwyd pum ysgol ar gyfer trydedd flwyddyn a blwyddyn olaf y prosiect, maent oll wedi cwblhau eu cymhwyster Bwyd a Maeth Lefel 2, ac mae pob un heblaw 3 wedi mynychu diwrnod hyfforddiant hwyluswyr. Mae'r mwyafrif wedi derbyn eu blychau adnoddau ac offer, a bydd y gweddill yn eu derbyn yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd. Mae pawb hefyd wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant hylendid bwyd ar-lein. Mae 20 o ysgolion wedi ymgysylltu â'r prosiect ar draws y tair blynedd, ac mae pob un heblaw tri naill ai yn darparu neu'n derbyn hyfforddiant atgoffa i gynorthwyo darpariaeth yn y flwyddyn academaidd newydd.

Mae cyllid y Cynllun Corfforaethol ar gyfer y prosiect yn dod i ben ym mis Gorffennaf, a bydd y prosiect yn dod i ben yn ffurfiol yn awr. Ond, rydym yn falch bod rhywfaint o gyllid ychwanegol wedi'i ganfod i gynnal rôl Cydlynydd Maeth Ysgolion tan fis Mawrth 2023. Bydd hyn yn ein caniatáu i barhau i gefnogi'r gwaith da gyda'r ysgolion sydd wedi cofrestru, ac yn gobeithio recriwtio mwy o ysgolion hefyd. Wrth edrych tua'r dyfodol ni fydd hyfforddiant yn benodol ar gyfer ysgolion, ond yn hytrach bydd mynediad at hyfforddiant drwy sesiynau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn rheolaidd. Bydd, fodd bynnag, rhai sesiynau gyda'r nos ar gyfer hyfforddiant i athrawon a sesiynau blasu coginio i ymgysylltu â mwy o ysgolion.

Ar y trywydd iawn: Dechrau Gwaith

Mae cyfanswm o 121 o leoliadau wedi'u canfod hyd yma dros gyfnod oes y prosiect; 79 ohonynt wedi'u llenwi, a 62 wedi'u cwblhau'n llwyddiannus. Mae gwaith yn parhau yn awr i godi proffil Cynllun Dechrau Gweithio a chyflawni mwy o leoliadau. Mae cronfa ddata Sir Ddinbych yn Gweithio wedi'i diweddaru i gynnwys adran cyflogwr / cyfleoedd. Bydd hyn yn gymorth i roi mwy o wybodaeth i'r tîm o ran y galw yn Sir Ddinbych yn Gweithio gan ddinasyddion lleol er mwyn gallu cyflawni ymgysylltiad wedi'i dargedu gyda chyflogwyr.

Mae adolygiad ar y gweill gydag AD a chyflogau i symleiddio prosesau Cynllun Dechrau Gweithio a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r holl bartïon. Yn sgil hyn, mae addasiadau i'r

prosesau ar y gweill. Wedi cael rhywfaint o eglurder ar derfynau amser y Gronfa Ffyniant Gyffredin, bydd angen cyflwyno adroddiad pellach i Fwrdd y Gyllideb i dynnu sylw at bwysau posibl ar gyllid o fis Rhagfyr 2022.

Ar gau: Sir Ddinbych yn Gweithio: Barod am Waith

Fel y nodwyd yn flaenorol, ni chynhaliwyd digwyddiadau gyrfaol a gynlluniwyd ar gyfer 2021 i 2022 oherwydd pwysau parhaus sydd ar ysgolion. Mae dyddiad cau'r prosiect wedi pasio yn awr ac mae'r cyllid wedi dod i ben. Mae adolygiad ar y gweill a bydd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Medi.

Ar y trywydd iawn: Gwirfoddoli

Mae paratoadau ar y gweill ar gyfer cyfarfod rhwydwaith gwirfoddolwyr mewnol i annog gwasanaethau i ddechrau hysbysebu eu cyfleoedd gwirfoddoli, ynghyd ag annog y gwasanaethau nad ydynt yn cynnig cyfleoedd i edrych ar y buddion sy'n dod o ganlyniad i recriwtio gwirfoddolwyr. Mae AD hefyd yn gweithio i hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli fel rhan o'u safle recriwtio, ac yn gobeithio cynnal ffair recriwtio yng nghanol Sir Ddinbych gyda stondin yn y digwyddiad i hysbysebu'r cyfleoedd sydd ar gael.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Data 2020 i 2022

Llinyn Mesur	**2020 - 2021**	**2021 - 2022**	**Statws**
Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd - **wedi'i feincnodi yn genedlaethol** (Yn seiliedig ar 2019 a 2020)	Dim data oherwydd Covid-19	Dim data oherwydd Covid-19	Rhagorol
Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd - **wedi'i feincnodi yn genedlaethol** (Yn seiliedig ar 2019 a 2020)	Dim data oherwydd Covid-19	Dim data oherwydd Covid-19	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y plant 4-5 oed sy'n bwysau iach neu dan bwysau (adroddwyd blwyddyn yn hwyrach - **wedi'i feincnodi yn genedlaethol**	71.8	Dim data oherwydd Covid-19	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llinyn Mesur	2020 - 2021	2021 - 2022	Statws
Cyfartaledd Sgôr Pwyntiau Awdurdod Lleol - CA4 Dangosydd Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru - **wedi'i feincnodi yn genedlaethol**	Dim data oherwydd Covid-19	Dim data oherwydd Covid-19	Rhagorol (Yn seiliedig ar 2019 a 2020)
Canran y plant yn cyflawni 5 TGAU A*-C (Lefel 2, Cyfnod Allweddol 4), gan gynnwys Cymraeg (iaith 1af) neu Saesneg, Mathemateg a Llenyddiaeth Saesneg, erbyn diwedd yr ysgol uwchradd, yn erbyn y canran wnaeth gyflawni'r safon disgwyliedig ar ddiwedd yr ysgol gynradd (Lefel 4, Cyfnod Allweddol 2) – **wedi'i feincnodi yn genedlaethol**	Dim data oherwydd Covid-19	Dim data oherwydd Covid-19	Derbyniol (Yn seiliedig ar 2019 a 2020)
Y nifer o ysgolion yn darparu addysg drwy addasrwydd a chategorïau cyflwr C a D - **wedi'i feincnodi yn lleol**	27	27	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y disgyblion yn defnyddio Agweddau Disgyblion atynt eu Hunain a'r Ysgol - PASS sy'n ymateb yn gadarnhaol yn erbyn teimladau disgyblion am yr ysgol - **wedi'i feincnodi yn lleol**.	87.2	Dim data. Dim arolwg	Da
Y cynnydd canrannol yng nghyflogau pobl ifanc sydd wedi cofrestru â'r Prosiect Bwrsariaeth Cyflogaeth - **wedi'i feincnodi yn lleol**	17	16	Rhagorol

Data 2018 i 2022

Llinyn Mesur	2018 - 2019	2021 - 2022	Statws
Canran y preswylwyr sy'n fodlon bod yna gyfleoedd gwaith i bobl ifanc ar ddechrau eu gyrfa - **wedi'i feincnodi yn lleol**	19	19	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y preswylwyr sy'n fodlon bod yna gyfleoedd gwaith i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau - **wedi'i feincnodi yn lleol**	28	26	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y preswylwyr sy'n fodlon bod yna gyfleoedd hamdden sy'n apelio at bobl ifanc - **wedi'i feincnodi yn lleol**	50	40	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

Llinyn Mesur	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Chwarter 1 2022 - 2023	Statws
Canran o'r boblogaeth 18 i 24 oed sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol**	10	7.5	6.9	6.2	4.9	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llesiant a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n cefnogi Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant, cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.** Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y

Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Croesawu Eisteddfod yr Urdd

Estynnodd y cyngor groeso cynnes i bobl ifanc dawnus, eu teuluoedd ac ymwelwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt wrth iddynt gynnal Eisteddfod yr Urdd yn Sir Ddinbych rhwng 30 Mai a 4 Mehefin. Mae'r wŷl, yn ddigwyddiad pwysig yng nghalendr diwylliant plant a phobl ifanc, yn dathlu diwylliant, treftadaeth a thraddodiad Cymru. Roedd yn gyfle gwych i ddangos y sir, yr atyniadau a'r golygfeydd i'r miloedd o bobl a fynychodd, er budd twristiaeth leol. Mae'r cyngor wedi llongyfarch yr holl rai a gyfranogodd am eu llwyddiant; ac fe dorrodd y digwyddiad, a oedd yn rhad ac am ddim i'w fynychu, recordiau presenoldeb!

Mae'r Urdd yn sicrhau buddion uniongyrchol i'r nodwedd a ddiogelir **oedran,** a gan ei fod yn rhad ac am ddim roedd yn darparu buddion i'r rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithasol.** Mae'r Eisteddfod yn llawn gwaith **ar y cyd** ac yn **integredig** sy'n ceisio **cynnwys** pawb i ddathlu talent, ac arwain at fuddion **hirdymor**; er budd y bobl ifanc sy'n ymgysylltu ond hefyd ar gyfer yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

Prosiect Parod

Wedi'i ariannu drwy Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU, mae Prosiect Parod yn cael ei ddarparu gan Dîm Sir Ddinbych yn Gweithio y cyngor i gefnogi pobl 16 i 35 i ddatblygu sgiliau swyddi, yn enwedig pan ei bod yn anodd canfod cyflogaeth oherwydd diffyg hyder, materion iechyd meddwl neu anabledd. Nod y prosiect yw darparu'r gefnogaeth gywir i fynd i'r afael â rhwystrau cyflogaeth, magu dyhead, gwella ysgogiad a gweld cyfranogwyr yn symud ymlaen at addysg a hyfforddiant, ynghyd â chwilio am swyddi.

Wedi'i ddarparu mewn **cydweithrediad** gyda phartneriaid fel Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych, ac **integreiddio** gydag uchelgais Llywodraeth y DU, mae'r gwaith yn ceisio elwa y rhai sy'n **cyfranogi** yn **hir dymor** ac **atal** caledi drwy ddiweithdra. Bydd yn sicrhau buddion uniongyrchol i'r nodwedd a ddiogelir **Oedran** ac **Anabledd,** ac yn gymorth i'r rheiny dan **anfantais economaidd-gymdeithasol.** I gael rhagor o wybodaeth am Brosiect Parod ewch i'n gwefan, neu anfonwch e-bost at workingdenbighshire@denbighshire.gov.uk neu ffoniwch 01745 331438.

Cystadlaethau Ysgolion

I nodi 70 mlynedd y Frenhines ar yr orsedd Brydeinig, bu'r Gwasanaethau Addysg a Phlant yn gweithio gyda chyn-Gadeirydd y Cyngor, y Cyng Alan James, i osod cyfres o gystadlaethau cyffrous ar gyfer ysgolion, gan gynnwys dylunio baner, ysgrifennu llythyr, creu cerflun, addurno bisgedi, a chystadleuaeth frenhinol yn ymwneud â phobi. Roedd y cynigion yn wych, yn dangos gwaith caled, ymdrech a chreadigrwydd y bobl ifanc dawnus. Derbyniwyd cyfanswm o 2,407 o gynigion dros 7 cystadleuaeth, ac fe gyhoeddwyd yr enillwyr ar ein gwefan.

Roedd y prosiect **ar y cyd** yn fenter wych i **gynnwys** pobl ifanc yn y dathliadau cymunedol a gynhaliwyd, gan sicrhau buddion uniongyrchol ar gyfer nodwedd a ddiogelir **Oedran**. Y gobaith yw y bydd yn darparu atgofion parhaus i'r bobl ifanc o'r digwyddiad, a sgiliau newydd yn **hir dymor.**

Prosiect Grymuso Economaidd

Wedi'i ariannu gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adnewyddu Cymunedol, bydd y prosiect Grymuso Economaidd yn ceisio cynnal digwyddiadau am ddim yn y Rhyl yn ystod mis Gorffennaf i gynnig canllawiau i breswylwyr sy'n ystyried sefydlu busnes yn y sir. Cynhelir y digwyddiadau yn Costigan's Co-Working Hub, sydd wedi'i adnewyddu yn ddiweddar gan Gyngor Sir Ddinbych fel rhan o raglen adfywio ehangach y Rhyl.

Gan **integreiddio** gydag uchelgais Llywodraeth y DU, a **chydweithio** gyda'n partneriaid yn Sgwâr y Dref yn Costigan's Co-working Space, mae digwyddiadau fel y rhain yn ceisio **cynnwys** entrepreneuriaid newydd ac ysgogi twf yr economi a chyfleoedd swyddi newydd, gyda'r gobaith o **atal** bod yn segur a chaledi yn **hirdymor**. Bydd y rheiny dan **anfantais economaidd-gymdeithasol** yn elwa'n uniongyrchol o hyn.

Canolfan Ieuenctid y Rhyl

Ym mis Mehefin, penododd y cyngor gontractwyr, Adever, i gyflawni adnewyddiad llawn hen Gaffi'r East Parade i greu canolfan ieuenctid gyfoes yn y Rhyl. Bydd yn amgylchedd cyfforddus lle gall pobl ifanc ddatblygu eu sgiliau a derbyn mynediad at gefnogaeth wedi'i deilwra drwy weithgareddau a hyfforddiant. Disgwylir i'r gwaith adnewyddu gymryd chwe wythnos, gyda'r ganolfan newydd yn agor ym mis Medi.

Mae grŵp ymgynghori yn **cynnwys** preswylwyr ifanc y Rhyl wedi bod yn mynychu cyfarfodydd yn yr eiddo i gyflwyno eu syniadau a dewis addurn y ganolfan. Mae'r Gwasanaethau Ieuenctid hefyd yn **cydweithio** gydag amrywiaeth o bartneriaid a gwasanaethau'r cyngor i roi cefnogaeth yn ei le ar gyfer pobl ifanc ar gyfer eu hanghenion cymdeithasol, emosiynol ac addysgol, gan gynnwys darpariaeth iaith Gymraeg. Y gobaith yw bydd y ganolfan yn ganolbwynt **hirdymor** i gynorthwyo ein preswylwyr ifanc i oresgyn ac **atal** unrhyw rwystrau sy'n eu caniatáu i gyflawni eu potensial. Mae'r prosiect yn **integreiddio** gwaith adfywio ehangach y cyngor yn y Rhyl, a bydd yn sicrhau buddion uniongyrchol i nodweddion a ddiogelir **Oedran**, **Anabledd**, a chymorth i'r rhai dan **anfantais economaidd-gymdeithasol**.

Ffair Swyddi Sir Ddinbych yn Gweithio

Gan weithio **ar y cyd** gyda 38 o sefydliadau a chyflogwyr o amgylch y sir, cynhaliodd y cyngor ddigwyddiad rhwydweithio am ddim ym mis Mehefin ar gyfer unigolion sy'n chwilio am waith. Daeth dros 100 o bobl dros 16 oed i'r ffair swyddi yn y Rhyl, gan gynnwys teuluoedd o Wcráin a gyrhaeddodd Sir Ddinbych fel rhan o Gynllun Adsefydlu'r DU. Roedd amryw o swyddogion Sir Ddinbych yn Gweithio yn bresennol yn y digwyddiad, yn cynnig cyngor am gyflogaeth ac yn cyfeirio unigolion at fframwaith Cyflogaeth Sir Ddinbych yn Gweithio, sy'n rhoi cefnogaeth lawn iddyn nhw ar ôl y digwyddiad a hyd nes y byddan nhw'n canfod gwaith. Bu i Fentor Ffoaduriaid Arbenigol gynnig cymorth i unigolion gyda rhwystrau ieithyddol a chyfeiriadu diwylliannol.

Gyda'r gwasanaeth yn cael ei ariannu'n rhannol gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, a thrwy weithio mewn partneriaeth â Chymunedau am Waith a'r Ganolfan Byd Gwaith, mae'r gwaith yn dangos **integreiddiad** da o amcanion ar y cyd. Mae digwyddiadau a chefnogaeth fel hyn, sy'n ceisio **cynnwys** unigolion, yn eu helpu i oresgyn rhwystrau at waith ac **atal** diweithdra a chaledi yn **hirdymor**. Bydd yn sicrhau buddion uniongyrchol i'r rhai o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol**, ynghyd â nodweddion a ddiogelir **Oedran**, a **Hil**. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer y ffair swyddi nesaf ym mis Medi. Er mwyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau a dysgu mwy am Sir Ddinbych yn Gweithio, ewch i'n gwefan, neu i gael cymorth gyda chyflogaeth, defnyddiwch ein ffurflen atgyfeirio.

Iechyd Corfforaethol: Mae'r Cyngor yn effeithlon, wedi'i reoli'n dda ac yn amgylcheddol gynaliadwy

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llywodraethu: Da

Fframwaith Perfformiad Iechyd Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Gyda'r adroddiad hwn, mae 51% o'n mesurau Cynllun Corfforaethol yn feysydd i'w gwella, i fyny o 47% yn yr adroddiad diwethaf. Mae un o'n prosiectau corfforaethol yn un 'dan fygythiad' ar hyn o bryd (Barod am Waith, Sir Ddinbych yn Gweithio), ac mae 95% yn cael eu diweddaru'n rheolaidd gan reolwyr prosiect. Fe'n cynghorwyd y bydd y prosiect hwn yn dod i ben, fel y nodwyd yn flaenorol, oherwydd ni chynhaliwyd digwyddiadau gyrfaol a gynlluniwyd ar gyfer 2021 i 2022 oherwydd pwysau parhaus sydd ar ysgolion. Mae dyddiad cau'r prosiect wedi pasio yn awr ac mae'r cyllid wedi dod i ben. Mae adolygiad ar y gweill a bydd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Medi.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd 64% o'n Risgiau Corfforaethol yn anghyson gyda'n parodrwydd i dderbyn risg yn ein hadolygiad ym mis Chwefror, ond mae uwch reolwyr a'r Cabinet yn mynd i'r afael â'r rhain, ac yn cyfiawnhau eu cynnwys yn ein Cofrestr Risgiau Gorfforaethol fel y risgiau mwyaf difrifol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Bydd yr adolygiad nesaf yn dechrau ym mis Medi.

Nid ydym wedi derbyn unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella gan reoleiddwyr allanol (Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru), ac ni chafwyd unrhyw adroddiadau sicrwydd isel yn y cyfnod hwn gan archwilio mewnol.

Ymrwymiad sylweddol gan y cyngor yn y ddegawd nesaf yw lleihau effaith carbon yr asedau sydd ganddynt. Mae ein llinyn mesur allweddol ar gyfer asedau, sy'n olrhain ein cynnydd tuag at fod yn awdurdod heb unrhyw allyriadau carbon erbyn 2030, yn gofyn am ostyngiad o o leiaf 1,559 tunnell bob blwyddyn (gan gynnwys amsugniad). Gyda chymorth y pandemig, gostyngodd y cyngor ei gyfanswm Carbon Net yn 2020 i 2021 o 3,753 tunnell. Roeddem yn disgwyl i hyn gynyddu yn ystod 2021 i 2022 wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio; ac mae hynny wedi digwydd, gan gynyddu o oddeutu 1,379 tunnell. Mae hyn, fodd bynnag, yn ostyngiad o 17% i'n gwaelodlin yn 2019 i 2020 ac yn cael ei ystyried yn gynnydd da.

Mae llinyn mesur ar amrywiant y gyllideb (h.y. yr hyn sydd gennym o'i gymharu â'n gwariant) wedi cynyddu o -2,399 mil ym mis Mawrth 2022 i 1,109 mil ym mis Mehefin 2022. Mae cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn parhau yn £7.135 miliwn.

Mae canran y straeon newyddion negyddol am y Cyngor (fel cyfran o bob stori newyddion am y cyngor) wedi cynyddu i 10% rhwng mis Ebrill a mis Mehefin. Y ffigwr ym mis Ionawr i fis Mawrth oedd 9%. Mae hyn yn cynrychioli 21 o straeon negyddol allan o gyfanswm o 200. Roedd y cynnydd yn bennaf o ganlyniad i gamgymeriad gyda'r papurau pleidleisio drwy'r post a arweiniodd at sawl stori negyddol yn y newyddion. Mae canran y cwynion allanol a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol dros y chwarter diwethaf wedi gostwng o 60% i 46%. Mae hyn yn cynrychioli 39 o gwynion wedi'u cadarnhau neu wedi'u cadarnhau'n rhannol.

Ym mis Mehefin 2022, roedd absenoldeb salwch yn 10.18 diwrnod, i fyny o 9.57 yn y cyfnod diwethaf. Mae hyn yn cymharu â 7.12 diwrnod ym mis Mehefin 2021. Ym mis Mehefin 2022, roedd canran y staff sydd wedi cael o leiaf 3 cyfarfod un i un yn y 12 mis diwethaf yn 45%.

Erbyn diwedd Mehefin, roedd 39% o wariant y Cyngor gyda chyflenwyr lleol a 100% o gontractau (dros £25,000 ac yn llai na £1,000) yn ystod y cyfnod yn cynnwys manteision cymunedol. Cwblhawyd un gweithgaredd caffael cydweithredol (o'r pum y gwneir gwaith arnynt), yn ystod y cyfnod, ac ni fethwyd unrhyw un. Mae 11 o gaffaeliadau cydweithredol posibl ar y gorwel a bydd y rhain yn datblygu dros y misoedd i ddod.

Mae ein llinyn mesur olaf yn ystyried ymdrechion y Cyngor i gefnogi preswylwyr mewn i waith drwy leoliadau rydym ni'n eu cynnig yn y Cyngor. Yn ystod mis Ebrill i fis Mehefin, fe wnaethom ni gefnogi 12 o leoliadau ychwanegol llwyddiannus, gan ddod â'r cyfanswm i 155. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar ein perfformiad yn y flwyddyn flaenorol, ac mae llacio cyfyngiadau Covid-19 wedi helpu hynny.

Hunanasesiad Iechyd Corfforaethol: Meysydd Llywodraethu

Mae ein saith maes llywodraethu allweddol yn ein hunan-asesiad wedi'u hamlinellu isod ac yn ceisio rhoi darlun o ba mor dda mae'r Cyngor yn perfformio, sut rydym yn gwybod hynny (gan gyfeirio at dystiolaeth lle bo modd), a sut gallwn wella.

Cynllunio Corfforaethol

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

Hyfforddiant Aelodau ac Etholiadau Llywodraeth Leol

Cynhaliwyd etholiad llywodraeth leol ar 5 Mai, gyda'r canlyniadau ar gyfer Sir Ddinbych yn 25 o gynghorwyr yn cael eu hailethol a 23 o gynghorwyr newydd (cyfanswm o 48 i gyd). Roedd nifer yr etholwyr ar gyfer etholiadau'r sir oddeutu 39%, ac er na chafodd unrhyw blaid fwyafrif ar y cyfan, y Blaid Lafur oedd y blaid fwyaf. Lluniwyd cynllun hyfforddi a chyflwyno cynhwysfawr am wyth wythnos ar gyfer y cynghorwyr, a oedd yn cynnwys trosglwyddiadau TGCh, cod ymddygiad, cynnal cyfarfodydd hybrid effeithiol, cydraddoldeb ac amrywiaeth, gwybodaeth ar sut mae'r cyngor yn gweithio, a hyfforddiant a gweithdrefnau pwyllgorau penodol.

Yn y cyfarfod cyntaf ym mis Mai, penododd y Cyngor y Cynghorydd Arwel Roberts fel Cadeirydd, a'r Cynghorydd Peter Prendergast fel Is-gadeirydd.

Cabinet

Gyda chytundeb i gydweithredu mewn lle rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru i ffurfio partneriaeth i reoli'r Cabinet, etholwyd y Cynghorydd Jason McLellan fel Arweinydd. Penodwyd Cabinet newydd gan yr Arweinydd fel a ganlyn:

- Y Cyng Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Mynd i'r Afael â Thlodi
- Y Cynghorydd Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd
- Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol
- Y Cynghorydd Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol
- Y Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant
- Y Cynghorydd Win-Mullen James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio
- Y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau

- Y Cynghorydd Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

Cydbwysedd Gwleidyddol a Phenodi i Bwyllgorau

Yn y cyfarfod ym mis Mai, adolygodd y Cyngor ei gydbwysedd gwleidyddol ar gyfer y prif gyfarfodydd a threfniadau ar gyfer penodi aelodau i dri phwyllgor Craffu'r cyngor (gan gynnwys Cadeiryddion Craffu), y Pwyllgor Safonau, a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin mae'r Prif Weithredwr, gyda chefnogaeth AD, wedi symud ymlaen â chynlluniau i hysbysebu a recriwtio dau Gyfarwyddwr Corfforaethol i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, i geisio mynd i'r afael â materion capasiti. Y swyddi i'w llenwi yw rôl cyfarwyddwr, sy'n gyfrifol am yr Economi a'r Amgylchedd; a swydd newydd, yn gyfrifol am Lywodraethu a Busnes. Yn dilyn y penodiadau hyn, sy'n cael eu gwneud gan y Cyngor ym mis Gorffennaf, bydd yr adolygiad yn ystyried y strwythur arwain ar lefel Pennaeth Gwasanaeth. Yn y cyfamser, mae trefniadau dros dro yn eu lle, gyda phedwar rheolwr canol yn dirprwyo ar ran dwy rôl pennaeth gwasanaeth.

Cytuno a gweithredu dull cyngor cyfan ar gyfer Ffyrdd Newydd o Weithio

Gyda mwyafrif y cyfyngiadau ar weithio mewn swyddfeydd wedi'u llacio yn awr, mae'r Prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio wedi dechrau cyfnod lle bydd yn asesu ymddygiad staff o ran patrymau gweithio yn y swyddfa a gweithio o gartref. Bydd y dadansoddiad yn hysbysu ein strategaeth a pholisïau asedau hirdymor. O ran y gweithlu, bydd y prosiect yn ystyried y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig a'r newidiadau yr ydym yn bwriadu eu gwneud wrth symud ymlaen h.y. adolygu ein Polisi Gweithio'n Hyblyg er mwyn cael gweithlu sy'n fwy hyblyg. Y bwriad yw y bydd arolwg staff yn ystod yr haf i gasglu eu safbwyntiau.

Mae'r cyngor wedi derbyn adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru ar asedau a rheoli'r gweithlu yn y cyngor yn sgil y pandemig ac fe'i rannwyd gyda phapurau cyfarfod mis Mehefin y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Bydd yr argymhellion yn cael eu hystyried gan y pwyllgor ym mis Gorffennaf, ochr yn ochr ag ymateb y rheolwyr. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu yn yr adroddiad hwn y tro nesaf.

Datblygu Cynllun Corfforaethol newydd erbyn mis Hydref 2022.

Roedd gweithdai staff yn cael eu cynnal ddiwedd Ebrill a Mai i gael mewnbwn proffesiynol manylach i ddatblygu ein 'haddewidion' ymhellach a'r camau gweithredu posibl i'w cymryd dan bob un o'r themâu a gynigir yn y Cynllun Corfforaethol nesaf. Mae'r ddogfen ddrafft wedi'i thrafod yn helaeth gyda'r Cabinet newydd a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, gan arwain at naw thema drafft:

- **Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl.** Sicrhau fod digon o dai o ansawdd uchel ar gael, gan fynd i'r afael â'r ddarpariaeth i fodloni anghenion pobl yn Sir Ddinbych.
- **Sir Ddinbych ffyniannus.** Cefnogi'r adferiad yn dilyn y pandemig, gan gynnwys nodi a manteisio ar gyfleoedd i uwchsgilio trigolion a'u galluogi i gael mynediad at gyflogaeth ac incwm da. Rydym yn awyddus i ddefnyddio twf economaidd fel cymhelliant ar gyfer lleihau anghydraddoldeb.
- **Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus.** Hyrwyddo a chefnogi diogelwch, gwytnwch a lles pobl o bob oedran, mewn partneriaeth gyda rhwydweithiau cymunedol cryf sy'n galluogi pobl i fyw'n ddiogel, hapus, annibynnol a derbyn cymorth da lle bo angen.
- **Sir Ddinbych sydd yn dysgu a thyfu.** Cefnogi darpariaeth dysgu a hyfforddi o ansawdd sy'n galluogi pobl o bob oed i gyflawni eu llawn botensial, yn bersonol ac yn broffesiynol.
- **Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well.** Bydd Sir Ddinbych yn le gyda chymunedau sy'n ffynnu, yn gydlynol a chysylltiol, gan gynnwys isadeiledd ffyrdd a chysylltiadau cludiant da, cysylltedd digidol gwell, ac isadeiledd cymdeithasol i gefnogi lles personol a chymunedol.
- **Sir Ddinbych mwy gwyrdd.** Dod yn sefydliad Di-garbon Net erbyn 2030, a chyfoethogi, cynnal a gwella ein hasedau naturiol. Mae'n rhaid i ni liniaru - a gweithio gyda chymunedau i ymdopi gydag effaith newid hinsawdd, a gallai fod yn berthnasol i lifogydd, darpariaeth bwyd ayyb.
- **Sir Ddinbych mwy teg a chyfartal.** Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac amddifadedd y mae ein cymunedau yn ei wynebu, lleihau'r bwlch lles, a hyrwyddo amrywiaeth a chydlyniant cymunedol.
- **Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.** Bod yn sir lle mae'r iaith Gymraeg yn iaith byw a ffyniannus. Bydd y sir hefyd yn gwneud y mwyaf

o'r cyfoeth o dreftadaeth ddiwylliannol ac asedau naturiol er mwyn cefnogi ffyniant economaidd, cydlyniant cymunedol, ac ennyn balchder yn ein cymunedau.

- **Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n uchel ei berfformiad.** Bod yn gyngor teg, tryloyw, sy'n perfformio'n dda, yn cynnig gwerth am arian, ac yn cynnig gwasanaeth da i gwsmeriaid yn gyson. Mae'r cyngor yn awyddus i fod yn gyflogwr creadigol, dewr, uchelgeisiol, hyderus a rhagorol, wedi'i gefnogi gan drefniadau sicrwydd a rheolaeth gref.

Bydd y themâu yn cael eu rhannu gyda'r Cyngor llawn mewn gweithdy ar 12 Gorffennaf i gael mewnbwn a thrafodaeth bellach, gyda'r nod o gynnal un rownd derfynol o ymgysylltu â'r cyhoedd yn yr Hydref / Medi. Ceisir cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer y Cynllun Corfforaethol terfynol ar gyfer 2022 i 2027 ar 11 Hydref.

Ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol bod gan y cyngor drefniadau yn eu lle ar gyfer 'Asesiad Panel' cyfoedion o'i swyddogaethau, i'w gyflawni unwaith o fewn y tymor etholiadol. Bydd y cyngor newydd yn trafod y trefniadau hyn cyn gynted ag y bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhannu eu model ar gyfer panel cenedlaethol, a ddylai gynnwys costau.

Roedd y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i newid Cyfansoddiad y Cyngor, yn ogystal â chyflwyno Canllawiau i'r Cyfansoddiad, er mwyn helpu aelodau'r cyhoedd i ddeall ei ddarpariaethau. Cymeradwywyd y newidiadau, sy'n cynnwys gofynion ar gyfer Cynllun Deiseb newydd o dan y Ddeddf, a'r Canllawiau gan y Cyngor yn y cyfarfod cyntaf ym mis Mai.

Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Sicrhau y gofynnir cwestiwn ym mhob Her Perfformiad Gwasanaeth ynglŷn ag ymrwymiad i wasanaeth i gwsmeriaid.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r gweithgareddau gwella wedi'u gohirio nes y bydd y strwythur uwch reolwyr newydd yn hysbys. Rhagwelir, fodd bynnag, y bydd y rhaglen yn cael ei gynnal yn y gwanwyn, gan weithio fel y gwnaed yn flaenorol gydag amserlen fyrrach a llai o waith papur, a oedd yn gweithio'n dda y tro diwethaf. Mae angen ystyried, fodd bynnag, sut caiff data lefel gwasanaeth ei adolygu, gan ei fod yn rhan bwysig o'n Fframwaith Rheoli Perfformiad. Yn dilyn adolygiad diweddar gan Archwilio Cymru o Reoli

Perfformiad (gweler isod), bydd cynigion hefyd yn cynnwys argymhelliad ar gyfer cyhoeddi data perfformiad lefel gwasanaeth.

Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

Twf Economaidd ac Adfywio

Yng nghyfarfod cyntaf y Cabinet ar 7 Mehefin, cefnogwyd Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru, a gydgynhyrchwyd gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, sy'n hyrwyddo datblygiad economaidd cydweithredol ar draws y rhanbarth drwy gyfres o flaenoriaethau a gytunwyd ac a rannwyd i'w cyflawni ymysg y partneriaid. Mae'n nodi ffordd wahanol o ystyried twf economaidd gydag ymagwedd gyfannol yn seiliedig ar egwyddorion Economi Lles gyda thair thema allweddol: 1. Lles Cymdeithasol a Chymunedol; 2. Economi Carbon ac Allyriadau Isel; a 3. Economi Profiad.

Yn dilyn penderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gyflwyno eu cais eu hunain, yn ail gyfarfod Cabinet Sir Ddinbych ar 28 Mehefin, pwysleisiwyd cefnogaeth ar gyfer y prosiectau a gyflwynwyd ar gyfer Rownd 2 Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, ar gyfer etholaeth Gorllewin Clwyd, a gyda chefnogaeth David Jones, AS. Bydd y prosiectau hyn yn achosi effaith adfywio gweledol a fydd er budd y cymunedau lleol, ynghyd â gwella'r gofod gwyrdd a gwella cysylltedd.

Cynllunio Ariannol

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

Adroddiadau Diweddariadau Cyllid

Yn y cyfarfod ym mis Mehefin, derbyniodd y Cabinet adroddiad yn nodi sefyllfa refeniw derfynol ar gyfer 2021 i 22 a thriniaeth arfaethedig y cronfeydd wrth gefn a'r balansau. Roedd yr adroddiad yn amlinellu bod drafft cyntaf y Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2021 i 22 ar y trywydd cywir i gael ei gyflwyno i'r archwilwyr allanol cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Gorffennaf er gwybodaeth. Gobeithir y gellir cyflwyno'r cyfrifon wedi'u harchwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Medi i gael eu cymeradwyo'n ffurfiol. Mae'r sefyllfa derfynol gyda chyllidebau corfforaethol a gwasanaeth (gan gynnwys tanwariant o £6.778m gydag ysgolion) yn danwariant o £9.177m.

Mewn ail adroddiad a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Cabinet ar 28 Mehefin, ceir manylion cyllideb refeniw ac arbedion y cyngor a gytunwyd ar gyfer 2022 i 2023. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai. Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £233.693 miliwn (£216.818 miliwn yn 21/22). Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol yn gorwario o £1.000m. Yr oedd cyllideb 2022 i 2023 yn gofyn am ddod o hyd i arbedion gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd o £0.754 miliwn, a chytuno arnynt, fel y nodir isod:

- Mae Ffioedd a Thaliadau wedi bod yn destun chwyddiant yn unol â'r polisi Ffioedd a Thaliadau a gytunwyd (£0.120 miliwn).
- Mae arbedion effeithlonrwydd gweithredol (£0.634 miliwn), wedi'u nodi yn bennaf gan wasanaethau yn ystod y flwyddyn ac o fewn cyfrifoldeb a ddirprwywyd i Benaethiaid Gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag Aelodau Arweiniol.

Ni cheisiwyd unrhyw arbedion ariannol gan Wasanaethau Cymorth Cymunedol nac Ysgolion, ac fe dybir bod unrhyw arbedion gweithredol a chynnydd mewn ffioedd a thaliadau wedi'u cyflawni.

Rheoli Perfformiad

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

Gweithredu proses flynyddol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar berfformiad y Cyngor.

Mae tîm y prosiect wedi ystyried y gwersi a ddysgwyd o flwyddyn gyntaf yr Arolwg Budd-ddeiliaid blynyddol (2021) a diwygio'r arolwg i ganolbwyntio ar y cwestiynau statudol y mae angen i ni eu gofyn o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn unig, sy'n ymwneud â pherfformiad ein hamcanion corfforaethol a llywodraethu. Bydd yr arolwg a'r ymagwedd yn cael eu rhannu gyda'r Tîm Arwain Strategol a Briff y Cabinet ym mis Medi, cyn ei lansio ym mis Hydref. Bydd yr arolwg yn cael ei hyrwyddo drwy ymgyrch cyfathrebu wedi'i dargedu ac yn parhau tan ddiwedd Ionawr.

Darparu Gwelliant Cynaliadwy

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi adolygiad o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor, gan geisio sicrwydd eu bod yn gadarn ac yn debygol o

gefnogi gwelliant cynaliadwy a pharhaus. Daeth i'r casgliad bod Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor a'r trefniadau ar gyfer mesur ac adrodd perfformiad yn effeithiol, gyda rhai cyfleoedd i wella'r defnydd o'r feddalwedd rheoli perfformiad. Gallai'r Cyngor hefyd ystyried gwella adroddiadau perfformiad meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth, sut caiff gwybodaeth ariannol a gwybodaeth mewn perthynas â pherfformiad eu hystyried ar y cyd, a bod sesiynau 1 i 1 staff yn cael eu cofnodi mewn modd cywir a phriodol. Bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Medi, ochr yn ochr ag ymateb y rheolwyr.

Adeiladau'r Frenhines

Yn dilyn ein hadroddiad blaenorol ar gynnydd Adeiladau'r Frenhines, dyfarnwyd y contract adeiladu ar gyfer cam un y prosiect i Wynne Construction ym mis Mehefin, ac fe'u penodwyd drwy fframwaith Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru. Roedd cam un, a fydd yn cynnwys adeiladu neuadd farchnad dan do newydd, gofod digwyddiadau ac ardal allanol wedi'i dirlunio, ynghyd ag adnewyddu Siambrau'r Frenhines, wedi'u gohirio ychydig oherwydd bod adar yn nythu ar y safle. Mae arwyddion wedi'u gosod hefyd o amgylch yr adeilad i ddangos prosiectau eraill sy'n gysylltiedig â rhaglen Adfywio'r Rhyl, gan gynnwys Ysgol Uwchradd y Rhyl, Crist y Gair, gwaith amddiffyn yr arfordir, SC2, 1891, Gwyrddu'r Rhyl, Harbwr y Rhyl, Costigans Co-Working Space, a Stryd Edward Henry. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau rhaglen adfywio'r Rhyl, ewch i www.sirddinbych.gov.uk/adfywior-rhyl

Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

Hunanasesiad o Berfformiad

Cyflwynwyd Hunanasesiad o Berfformiad y Cyngor yn erbyn ei swyddogaethau, y cyntaf sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i'r Uwch Dîm Arwain, y Cabinet, Pwyllgor Craffu Perfformiad a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i dderbyn eu safbwyntiau ym mis Mehefin. Cwblhaodd yr adroddiad gyfres o bedwar o adroddiadau diweddaru perfformiad chwarterol sydd wedi'u cynhyrchu drwy'r flwyddyn, ac am y tro cyntaf roedd yn cynnwys crynodeb gweithredol, sy'n darparu datganiadau byr o'n sefyllfa yn erbyn pob un o'n Hamcanion Lles, ac yn erbyn y saith maes llywodraethu a amlinellwyd yn y canllawiau statudol. Roedd y cynghorwyr newydd yn croesawu'r crynodeb a'r adroddiad llawn, gan nodi ei fod yn hynod ddefnyddiol ar ddechrau eu cyfnod yn y swydd. Cyflwynwyd trydedd dogfen hefyd a oedd yn ceisio crynhoi ein cyflawniadau

flwyddyn ar ôl blwyddyn yn erbyn y Cynllun Corfforaethol 2017 i 2022. Bydd yr hunanasesiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i dderbyn cymeradwyaeth ar 19 Gorffennaf. Ar ôl derbyn cyfieithiadau, rhagwelir bydd y dogfennau llawn yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan ym mis Medi.

Yr adroddiad diweddaru o fis Ebrill i fis Mehefin hwn yw'r cyntaf o'n hunanasesiad parhaus ar gyfer 2022 i 2023.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2021 i 2022 yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, sy'n ofynnol fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon. Mae'r ddogfen yn asesu a yw'r cyngor yn cydymffurfio â'r Fframwaith ar gyfer Darparu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (Cymru) 2016, ac yn tynnu sylw at unrhyw feysydd ar gyfer gwella i drefniadau llywodraethu. Nodwyd pum o feysydd i'w gwella drwy'r adroddiad, a byddant yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Grŵp Swyddogion Llywodraethu Corfforaethol.

Strategaeth ac Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol

Yn yr un cyfarfod ym mis Mehefin, derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adroddiad gan y Prif Archwiliwr Mewnol a oedd yn crynhoi'r gwaith a gwblhawyd yn ystod 2021 i 2022, gan gynnwys gwaith a wnaed mewn perthynas â gwrth dwyll. Cynhaliwyd cyfanswm o 26 archwiliad, 2 ohonynt yn gynghorol, 2 yn rhoi sicrwydd isel, 14 yn rhoi sicrwydd canolig a 8 yn rhoi sicrwydd uchel. Nid oedd unrhyw adroddiadau heb sicrwydd. Roedd y Tîm Archwilio Mewnol hefyd yn ymwneud â dau archwiliad i dwyll, a oedd yn arwain at argymhellion i wella rheolyddion yn y ddau achos, ac un wedi arwain at ddiswyddo. Canslwyd neu gohiriwyd 18 archwiliad oherwydd llai o gapasiti yn y Tîm Archwilio Mewnol, cyfyngiadau Covid-19 neu bwysau ar y gwasanaeth. Cadarnhawyd bod capasiti staff yn y Tîm Archwilio Mewnol yn fater sy'n cael ei ystyried gan Bennaeth Dros Dro Gwella Busnes a Moderneiddio a'r Prif Archwilydd Mewnol. Holodd yr aelodau hefyd am ddata'r arolwg a ddychwelwyd ar ôl yr archwiliadau, ac fe gadarnhawyd y byddai prawf gydag arolygon amlach yn dechrau i annog gwella'r cyfraddau ymateb, ac i wella data.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2022 i 2023, a oedd yn nodi 34 prosiect ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a fyddai'n galluogi i'r Prif Archwilydd Mewnol ddarparu barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor. Mae'r rhaglen waith yn cynnwys amrywiaeth o archwiliadau o bob

maes gwasanaeth, gyda rhai yn cael eu cario drosodd o'r flwyddyn flaenorol, a'r gweddill yn cael eu cytuno gan Benaethiaid Gwasanaeth.

Rhaglen Adfywio'r Rhyl

Yn y cyfarfod cyntaf ym mis Mehefin, archwiliodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu sydd yn eu lle i gefnogi gwaith Bwrdd Rhaglen Adfywio'r Rhyl. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am oruchwylio cyfraniad y Cyngor at gyflawni Gweledigaeth Canol y Dref, ynghyd â rheoli unrhyw brosiectau adfywio o dan arweiniad y Cyngor yn y dref. Wedi'i alinio gyda Gweledigaeth Canol Tref y Rhyl, mae canolbwynt y Bwrdd wedi'i rannu yn 5 ffrwd o waith, yn ystyried manwerthu a masnach; yr amgylchedd; adeiladau'r Frenhines (gweler y wybodaeth ddiweddaraf uchod), preswyl, ac yn olaf priffyrdd a mynediad. Mae'r Bwrdd Rhaglen hefyd wedi alinio â gwaith Bwrdd Datblygu Cymunedol y Rhyl, yn ceisio mynd i'r afael â ffactorau amddifadedd sy'n rhoi saith o'r 16 Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y Rhyl yn y 10% sydd fwyaf difreintiedig. Roedd y pwyllgor yn gwerthfawrogi'r adroddiad cynhwysfawr a gyflwynwyd a gofyn am adroddiad monitro blynyddol ar gynnydd y rhaglen.

Rheoli Risg

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi lechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

Cofrestr Risgiau Corfforaethol a Hyfforddiant i Aelodau

Ychydig iawn o newid a fu o ran rheoli risg yn y cyfnod diwethaf hwn, gan fod yr adroddiad rhwng ein hadolygiadau chwe misol ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Fodd bynnag, cynigiwyd hyfforddiant i'r holl gynghorwyr ar fethodoleg rheoli risg y cyngor (sy'n cynnwys parodrwydd i dderbyn risg), cyn cyflwyno'r adolygiad diweddaraf (Chwefror) o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ym mis Mehefin. Am y tro cyntaf roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb newydd sydd wedi'i ddatblygu i gynorthwyo i gyfathrebu'r nifer cynyddol o risgiau y mae'r cyngor yn eu hwynebu yn yr hinsawdd byd-eang sydd ohoni. Ar hyn o bryd mae 22 o risgiau ar Gofrestr Risgiau Corfforaethol y cyngor, lle bo 14 nad ydynt yn cyd-fynd â'n parodrwydd i dderbyn risg (64%), sy'n teilyngu eu cynnwys ar y gofrestr.

Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

Perchnogion Risg

Yn dilyn etholiad y cynghorwyr newydd ym mis Mai, mae'r perchnogion risg wedi'u diweddaru ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol. Bydd ail-strwythuro'r Uwch Dîm Arwain hefyd yn arwain at newidiadau pellach i berchnogion risg dros y misoedd nesaf.

Cynllunio'r Gweithlu

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

Drwy ategu at Ffyrdd Newydd o Weithio, byddwn yn adolygu anghenion hyfforddiant, datblygu ac iechyd meddwl ar gyfer staff.

Mae polisi a chanllawiau drafft gweithio'n hyblyg ac ystwyth, i gefnogi ffyrdd newydd o weithio, yn cael eu hadolygu cyn eu rhannu gyda'r Uwch Dîm Arwain a'r undebau llafur i dderbyn eu sylwadau. Bydd deunyddiau cyflwyno drafft, gan gynnwys deunyddiau cyflwyno rheolwyr, yn cael eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain ar ddechrau mis Medi i'w cymeradwyo. Bydd cynnig, sy'n cynnwys sesiynau, i gefnogi staff gyda phrosiect 'ffyrdd newydd o weithio' yn dechrau ym mis Medi, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol. Bydd yr Arolwg Lles yn cael ei ohirio am ychydig, ac yn cael ei lansio ym mis Medi yn lle mis Mehefin. Bydd cynllun gweithredu 12 mis yn cael ei ddatblygu pan fydd Cefnogwyr Iechyd Meddwl yn eu lle i gefnogi'r ddarpariaeth.

Gwella'r wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu, gan gynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb, i gefnogi dadansoddiadau mwy manwl mewn Adroddiadau Dyletswydd Sector Cyhoeddus yn y dyfodol.

Mae'r data diweddaraf ar gyfer adroddiad Dyletswydd Sector Cyhoeddus yn cael ei gynhyrchu. Gwnaed rhywfaint o gynnydd ers y cyfnod diwethaf, ac mae gennym wybodaeth am gydraddoldeb ar gyfer 61% o'r gweithwyr yn awr.

Gwella ein rhaglen cynllunio gweithlu ac ystyried sut orau i gynllunio ar gyfer swyddi sydd angen lefel benodol o'r Gymraeg uwch na Lefel 1.

Mae cynllun newydd y cyngor ar gyfer cynllunio'r gweithlu wedi bod yn ei le ers y cyfnod blaenorol. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwasanaethau a chamau gweithredu sy'n ofynnol gan AD yn cael eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain ym mis Medi.

Mae cynnig o ran sut i gynllunio ar gyfer swyddi sydd angen Cymraeg sy'n uwch na Lefel 1 wedi'i ohirio am ychydig, ond bydd yn cael ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain ym mis Medi.

Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Ystyried y gofyniad am adnoddau staff cysylltiol â baich ychwanegol rheoli/cefnogi cyfarfodydd ar-lein a chynyddu'r nifer o gyfarfodydd Grŵp Tasg a Gorffen Aelodau ac ystyried pa gamau, os oes unrhyw gamau sydd angen eu cymryd.

Rydym wedi recriwtio i'r swydd Uwch-weinyddwr Pwyllgorau newydd er mwyn cefnogi gweithgarwch llywodraethu democrataidd yn y cyfnod diwethaf. Roedd yn benodiad mewnol. Yn sgil yr achos busnes cafwyd arian yn y flwyddyn ariannol hon i benodi ail swyddog Craffu, a byddwn yn dechrau'r broses recriwtio yn fuan. Ar sail hynny, mae'r cam gweithredu wedi'i gwblhau.

Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Sefydlu'r sefyllfa ddiweddaraf a lefel o risg cysylltiedig â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd / dangosyddion asesu risg sydd, neu wedi bod yn flaenoriaeth ar gyfer gwella / bod yn dderbyniol.

Mae gwaith i fynd i'r afael â'r mater o gydymffurfiaeth gyda gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac asesiadau risg (gan eithrio ar gyfer gweithwyr Gofal Cymdeithasol Cymru neu ASGC yn mynd rhagddo. Ni fu modd recriwtio aelod newydd o staff i oruchwylio cydymffurfiaeth ers mis Chwefror 2022. Mae cydymffurfiaeth yn 93% yn CSDd.

Adolygu mesurau un i un ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Chynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad.

Mae adrodd un i un wedi'i newid er mwyn i weithwyr sydd angen un i un unwaith y flwyddyn gael eu monitro am gydymffurfiaeth yn derbyn un, a bod gweithwyr sydd angen tri y flwyddyn yn cael eu monitro ar dri. Rydym yn datrys materion sy'n ymwneud â staff yn symud o un rôl lle bo angen un i rôl lle bo angen tri chyfarfod un i un. Mae AD yn cynhyrchu canllawiau i gyd-fynd ag adroddiadau monitro data yn y dyfodol i helpu gwasanaethau i ddeall beth allai effeithio ar eu data.

Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

Astudiaeth Archwilio Cymru

Yn ystod mis Rhagfyr 2021 - Chwefror 2022, cynhaliodd Archwilio Cymru astudiaeth leol o reoli asedau a chynllunio gweithlu Sir Ddinbych. Rhannwyd adroddiad yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Mehefin er gwybodaeth, ond bydd yn cael ei drafod mewn mwy o fanylder, gydag ymateb y rheolwyr yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf. Bydd rhagor o fanylion yn ein hadroddiad nesaf.

Cyfarwyddwyr Corfforaethol

Mae dwy swydd ar gyfer Cyfarwyddwyr newydd wedi'u hysbysebu yn y cyfnod: Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes a Chyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Economi a'r Amgylchedd. Disgwylir cynnal y cyfweliadau a phenodi ym mis Gorffennaf.

Asedau

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

Strategaeth Rheoli Asedau

Mae'r Tîm Rheoli Asedau presennol yn cael ei ailstrwythuro gydag aelod ychwanegol o staff i'w recriwtio er mwyn gallu canolbwyntio'n well ar y Strategaeth Rheoli Asedau ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth. Bydd cylch gorchwyl y Grŵp Rheoli Asedau a'r aelodaeth ddiwygiedig yn cael eu cytuno yng nghyfarfod nesaf y grŵp ym mis Gorffennaf.

Targed Ynni Adnewyddadwy mewn adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor ac yn cael eu meddiannu gan y cyngor

Roedd Cynllun Corfforaethol y cyngor ar gyfer 2017 i 2022 a'i Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn gosod targed i ddyblu'r ynni o adnoddau adnewyddadwy sy'n cael ei ddefnyddio mewn adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor ac sy'n cael eu meddiannu gan y cyngor. Gwnaed ymdrechion hefyd i gynhyrchu trydan y cyngor o ynni adnewyddadwy a osodwyd. Ar ddechrau mis Ebrill 2017 roedd gan y cyngor 147.8kWp o ynni adnewyddadwy wedi'i osod. O fis Ebrill 2022 roedd adran eiddo'r cyngor wedi cynyddu capasiti ynni adnewyddadwy sydd wedi'i osod i 539.62kWp, gan dreblu y capasiti a osodwyd a mwy. Mae'r cynnydd yn deillio'n bennaf drwy osod paneli ffotofoltäig solar ar

doeau. Bydd 338kWp ychwanegol yn cael eu gosod erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Creu canolbwyntiau mewn ardaloedd ar draws Sir Ddinbych ble mae yna gysylltiad band eang gwael, i gynorthwyo a galluogi cynnal cyfarfodydd o bell

Mae'r prosiect yn aros am ganlyniad cyllid grant cyn gallu symud ymlaen ymhellach.

Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Gwaith i alluogi darpariaeth cyfieithu gyda meddalwedd Microsoft Teams

Mae hyn yn fater cenedlaethol y tu hwnt i reolaeth y cyngor, felly mae'r gweithgarwch wedi'i gau. Pe bydd cyfleuster ar gael byddwn yn cefnogi ei weithrediad.

Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Creu cynllun i gefnogi partneriaid a busnesau allanol i symud ymlaen gyda'r rhaglen newid hinsawdd a newid ecolegol

Y bwriad yn wreiddiol oedd i'r cynllun gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Ebrill 2022; fodd bynnag, nid oedd hyn yn bosibl yn sgil newidiadau staff. Cynigir yn awr bod y cynllun yn cael ei ddatblygu erbyn diwedd Hydref, ar gyfer mentrau newid ymddygiad ehangach ac yna'n cael ei symud ymlaen o ddiwedd y flwyddyn ariannol hon ymlaen. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan y rolau 1.5 Cyfwerth â Llawn Amser arbennig newydd o fewn y Tîm Cyfathrebu i weithio ar y rhaglen hon.

Caffael

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi lechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

Integreiddio gwella a diogelu bioamrywiaeth yn ein prosesau caffael a chymell drwy fuddion cymunedol sy'n gwella'r amgylchedd. Byddwn yn gweithio gyda busnesau a chyflenwyr yn Sir Ddinbych i annog arferion carbon isel. Byddwn hefyd yn datblygu strategaeth gaffael newydd.

Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol yn parhau i ddarparu cefnogaeth reoli dros dro i'r Tîm Caffael, yn absenoldeb y Rheolwr Caffael. Mae problemau capasiti'n parhau ac mae'r rhain yn dal i gael effaith ar gyflymder y cynnydd mewn perthynas â'r gweithredoedd hyn.

Mae'r tîm yn y camau olaf o baratoi'r Strategaeth Gaffael ddrafft, a fydd yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio. Yn y cyfnod sydd i ddod, bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i drafod pwysoli gorfodol yn erbyn lleihau carbon mewn gwerthusiadau tendr. Mae'r cwestiynau ar gyfer y tendrau wedi'u cymeradwyo ac mae'r diwygiadau gofynnol yn cael eu gwneud i dempledi comisiynu a dogfennau gwerthuso tendr.

Rydym yn cadarnhau buddion cymunedol sy'n gwella ein hamgylchedd a darparu gwelliannau ecolegol drwy fentrau fel plannu coed, sy'n cynnwys egwyddor 'y goeden gywir yn y lleoliad cywir', a chyfraniad ar gyfer costau sefydlu coed yn y pum mlynedd cyntaf ar ôl eu plannu. Mae'r ymagwedd hon wedi'i chynnwys yn y contractau ar gyfer gwaith ffyrdd ar ofodau parcio, yn y gilfan ger Moel Famau, a chontract asffalt micro. Mae'r Hwb Buddion Cymunedol yn gweld cynnydd mewn diddordeb gan gyflenwyr i weithio gyda'r cyngor i liniaru ac i leihau allyriadau carbon. Mae'r Hwb yn awr yn cynnig hyfforddiant Cynaliadwyedd Cadwyn Gyflenwi Carbon Ysgol i swyddogion y cyngor.

Yn ein diweddariad blaenorol, nodwyd y byddem yn defnyddio tendr sydd ar y gweill i dreialu dulliau o annog a mesur lleihad carbon yn y contract. Roeddem wedi cynnwys gofynion 'Lleihau Carbon' yn y tendr ar gyfer Fframwaith Argraffu a Dylunio Graffeg, gofynnwyd i gyflenwyr ddarparu manylion eu hallyriadau carbon presennol fel gwaelodlin, a bydd y rhain yn cael eu hadolygu gyda'r cyflenwyr yn flynyddol i sicrhau eu bod wedi lleihau eu hallyriadau carbon yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn eu cyflwyniadau tendr. Bydd yr adolygiad cyntaf ym mis Hydref i fis Tachwedd 2022.

Sicrhau profiad arbenigol o fewn y cyngor i ddatblygu datgarboneiddo mewn caffael.

Mae'r tîm caffael yn gobeithio sicrhau cytundeb ar gyfer rhywun â phrofiad arbenigol yn y tîm i symud ymlaen â gwaith datgarboneiddio yn ein harferion caffael a'r gadwyn gyflenwi.

Adolygu Rheolau'r Weithdrefn Gontractau i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau caffael newydd a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Mae Rheolau'r Weithdrefn Gontractau yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a byddant yn cael eu diweddaru i adlewyrchu deddfwriaeth newydd Caffael Cyhoeddus y DU sydd i ddod yn 2023 i 2024.

Sicrhau fod staff sydd ynghlwm â rheoli contractau wedi'u hyfforddi'n briodol Bydd hyfforddiant yn cael ei gyflwyno ar draws y Cyngor i holl staff sydd ynghlwm â rheoli contractau.

Mae 82 o'r 121 o swyddogion a nodwyd ar gyfer Hyfforddiant Rheoli Contract Proactis wedi derbyn yr hyfforddiant a chanllaw i ddefnyddwyr yn awr. Bydd y 39 swyddog sy'n weddill yn derbyn hyfforddiant a chanllaw i ddefnyddwyr yn y cyfnod nesaf.

Gweithred Archwilio Mewnol: Cynlluniau Gwaith i'r Dyfodol Caffael i gael eu llunio gan bob Gwasanaeth i gynnwys gweithgareddau a phrosiectau presennol neu sganio'r gorwel

Mae Partneriaid Caffael Busnes yn parhau i fynychu cyfarfodydd tîm rheoli yn rheolaidd i drafod y contractau presennol ar gyfer y meysydd gwasanaeth, ac i annog y gwasanaethau i gyflwyno unrhyw weithgareddau caffael eraill sydd ganddynt ar y gorwel nad yw'r Tîm Caffael yn ymwybodol ohonynt eto.

Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Archwilio opsiynau hirdymor ar gyfer cynnal yr Hwb Buddion Cymunedol

Yn ogystal â'r dewisiadau a nodwyd yn ein hadroddiad blaenorol, mae'r cyngor yn ailystyried y polisi buddion cymunedol yn sgil Mesur newydd Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), a gan ystyried ein profiad o ddarparu'r polisi presennol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Data 2019 i 2021

Teitl	2019 - 2020	2020 - 2021	Statws
Canran y penodai newydd o geisiadau lle datgelwyd eu bod o grŵp hil neu grefyddol lleiafrifol, eu bod ag anabledd, yn hoyw neu ddeurywiol, neu eu bod wedi ailbennu rhywedd	15	4	Amherthnasol Cyfrif yn unig

Data 2020 i 2022

Teitl	2020 - 2021	2021 - 2022	Statws
Canran y gwahaniaeth yng nghymedr cyfradd tâl bob awr ar gyfer merched - **wedi'i feincnodi'n lleol**	-13.5	6.7	Derbyniol
Canran y cyflogau isaf a delir (chwarter isaf) sy'n ferched - **wedi'i feincnodi'n lleol**	79.9	79.3	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Presenoldeb aelodau (cyfredol ac a ddisgwylir), hyd yn hyn yn y flwyddyn - **wedi'i feincnodi'n lleol**	89	84	Da
Di-Garbon Net - Cyfanswm tunelledd carbon sy'n cael ei allyrru a'i amsugno gan y Cyngor (ac eithrio'r gadwyn gyflenwi) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	10,277	11,656	Rhagorol

Data 2018 i 2022

Teitl	2018 - 2019	2021 - 2022	Statws
Bodlonrwydd cyffredinol gyda'r Cyngor (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	40	32	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Partneriaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn gweithio'n dda gyda nhw (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Yn newydd yn 2021	62	Da
Cynghorwyr a gweithwyr y Cyngor sy'n cytuno fod perthynas weithio dda rhwng arweinwyr gwleidyddol a'r uwch dîm rheoli (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Yn newydd yn 2021	60	Derbyniol
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn rheoli ei berfformiad yn dda (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Yn newydd yn 2021	28	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn rheoli ei risgiau a heriau'n dda (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Yn newydd yn 2021	30	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Teitl	2018 - 2019	2021 - 2022	Statws
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn rheoli ei gyllid yn dda (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Yn newydd yn 2021	26	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod gan y Cyngor gynlluniau hirdymor yn eu lle (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Yn newydd yn 2021	31	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn trin ei weithlu'n dda (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Yn newydd yn 2021	35	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i asedau ac adnoddau (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Yn newydd yn 2021	20	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn prynu ei nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd effeithlon a theg (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Yn newydd yn 2021	25	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

Teitl	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Chwarter 1 2022 - 2023	Statws
Canran y Mesurau Cynllun Corfforaethol sy'n dangos 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' - **wedi'i feincnodi'n lleol**	41	45	43	47	51	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Nifer y prosiectau ar y gofrestr prosiect sydd 'dan fygythiad' - **wedi'i feincnodi'n lleol**	2	2	2	1	1	Da

Teitl	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Chwarter 1 2022 - 2023	Statws
Canran y prosiectau lle cafodd hyder o ran cyflawni ei ddiweddaru yn y tri mis diwethaf - **wedi'i feincnodi'n lleol**	96	90	84	100	95	Da
Canran y risgiau corfforaethol sy'n anghyson â datganiad parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor - **wedi'i feincnodi'n lleol**	Dim data. Bob chwe mis	62	Dim data. Bob chwe mis	64	Dim data. Bob chwe mis	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Nifer cronnus o'r adroddiadau negyddol gan reoleiddwyr allanol - **wedi'i feincnodi'n lleol**	0	0	0	0	0	Rhagorol
Nifer cronnus o adroddiadau sicrwydd isel Archwilio Mewnol, y flwyddyn ariannol hyd yn hyn - **wedi'i feincnodi'n lleol**	0	1	3	4	0	Rhagorol

Teitl	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Chwarter 1 2022 - 2023	Statws
Amrywiant Cyllideb Corfforaethol a Gwasanaeth (£k)	708	2,445	2,731	-2,399	1,109	Amherthnasol. Cyfrif yn unig
Cronfeydd wrth Gefn y Cyngor (£k)	7,135	7,135	7,135	7,135	7,135	Amherthnasol Cyfrif yn unig
Straeon newyddion negyddol fel canran o'r holl straeon newyddion am y cyngor - **wedi'i feincnodi'n lleol**	10	6	8	9	10	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y cwynion allanol wedi'u cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol dros y chwarter diwethaf - **wedi'i feincnodi'n lleol**	62	67	52	60	46	Da

Teitl	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Chwarter 1 2022 - 2023	Statws
Cyfartaledd treigl nifer y diwrnodau gwaith/sifftiau a gollwyd fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth â llawn amser oherwydd absenoldeb salwch - **wedi'i feincnodi'n lleol**	7.12	7.54	9.03	9.57	10.18	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y staff sydd wedi cael o leiaf 3 cyfarfod un i un yn y 12 mis diwethaf - **wedi'i feincnodi'n lleol**	44	42	36	43	45	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y gwariant gyda chyflenwyr o fewn Sir Ddinbych - **wedi'i feincnodi'n lleol**	33	38	40	36	39	Da

Teitl	Chwarter 1 2021 - 2022	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Chwarter 1 2022 - 2023	Statws
Canran cronnus o gontractau Sir Ddinbych dros £25,000 ac o dan £1,000,000 sy'n cynnwys manteision cymunedol - **wedi'i feincnodi'n lleol**	75	88	88	88	100	Rhagorol
Nifer cronnus o leoliadau profiad gwaith a gynigir o fewn y cyngor	64	110	134	143	155	Amherthnasol. Cyfrif yn unig

Camau Gwella

Isod mae camau gwella newydd sydd wedi cael eu nodi drwy'r adroddiad hwn:

- Mynd i'r afael â chapasiti staff yn y Tîm Archwilio Mewnol.
- Gwella'r adborth a dderbynnir gan gleientiaid ar ôl archwiliadau mewnol.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Ymgyrchoedd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

I gefnogi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol Dros Dro, bydd y Cyngor yn hyrwyddo ymgyrchoedd i gefnogi pobl â nodweddion a ddiogelir neu sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn rheolaidd. O fis Ebrill i fis Mehefin 2022, mae'r cyngor wedi cefnogi'r ymgyrchoedd a'r diwrnodau gweithgaredd canlynol drwy hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt:

- 27 Ebrill: Cefnogi Cynllun Adsefydlu'r DU ar gyfer teulu o Wcráin sy'n dod i Sir Ddinbych.
- 9 i 13 Mai: Cysylltu - Ymgyrch Unigrwydd ac Iechyd Meddwl
- 9 i 15 Mai: Wythnos Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl
- 9 i 22 Mai: Pythefnos Gofalwyr Maeth
- 16 i 22 Mai: Wythnos Gweithredu Dementia.
- 1 i 30 Mehefin: Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
- 25 Mehefin: Seremoni Baner i nodi Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn a'r Lluoedd Arfog.

Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol

Yng nghyfarfod y Cabinet ar 28 Mehefin, cytunwyd i sefydlu Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol, a fydd yn goruchwylio trefniadau mewnol i gefnogi a monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y cyngor. Yn y 12 mis diwethaf, bu sawl datblygiad ar destun cydraddoldeb ac amrywiaeth ar lefel genedlaethol (er enghraifft, Rhaglen Lywodraethu Cymru o 2021 i 2026, Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil, a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) ac ar lefel leol (ymchwil yn canolbwyntio ar gydraddoldeb yn yr Asesiad Lles Lleol). Nododd y Cabinet y datblygiadau diweddar a chymeradwyo ffurfio Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n cael ei arwain gan aelodau. Mae cynlluniau ar y gweill yn awr i gynnal cyfarfod cyntaf y Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol, ym mis Hydref. Ar hyn o bryd cynigir bod y grŵp yn cwrdd bob chwarter, a bydd adolygiad ar ôl y deuddeg mis cyntaf i asesu ei gyflawniadau.